Crynodeb o'r Ymatebion i'r
Papur Ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru 2008-09

Yn y broses ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru a gynhaliwyd rhwng Hydref a Rhagfyr 2007, gofynnwyd am farn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ystod eang o bartneriaid allweddol a chyrff rhanddeiliaid eraill i'n helpu i ddatblygu'r cynllun terfynol.

Yn ein hymgynghoriad, gofynnwyd am sylwadau mewn ymateb i 17 o gwestiynau penodol sy'n ymwneud â naw thema gomisiynu allweddol. Rydym yn ddiolchgar i'r cyrff hynny a ymatebodd a bu eu sylwadau o gymorth wrth baratoi'r cynllun terfynol.

Ymatebodd yr 21 o gyrff canlynol i'r ymgynghoriad:

1. Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin *
2. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd
3. Cymdeithas Tai Hafan
4. Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru
5. Kaleidoscope
6. Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion *
7. Ardal Brawf Gwent
8. Y Gwasanaeth Carchardai
9. Cymdeithas Fawcett
10. Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe
11. Canolfan Byd Gwaith
12. Uned Bartneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder
13. Ardal Brawf Gogledd Cymru
14. Heddlu De Cymru
15. Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru
16. Llywodraeth Cynulliad Cymru
17. Ardal Brawf Dyfed-Powys
18. Bwrdd Prawf De Cymru
19. Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd
20. Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
21. Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru

* Nododd yn ei ymateb nad oedd yn cynnig sylwadau

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a gafwyd.

Crynodeb o'r Ymatebion i'r
Papur Ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru 2008-09

MEYSYDD ALLWEDDOL AR GYFER COMISIYNU

Cwestiwn 1: O ystyried, ac eithrio prosiectau cyfalaf, na fydd ond yn bosibl cyllido gwasanaethau newydd neu well o arbedion effeithlonrwydd neu drwy ddadfuddsoddi yn y gwasanaethau presennol, pa ddarpariaeth bresennol sydd o flaenoriaeth isel yn eich barn chi ac y gellid ei lleihau?

Cyf	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Llai o fuddsoddi i ddatblygu darpariaeth 'arloesol' newydd os nad oes sylfaen dystiolaeth gadarn i ddangos y bydd yn gostwng troseddu'n fwy effeithiol. Mae Rheolwyr Troseddwyr hyfedr yn gallu peri i'r hyn a ddysgir o'r ymyriad fod yn fwy ymatebol i anghenion.
7	Ardal Brawf Gwent	- Ar sail y meini prawf hyn, awgrymir mai i Orchmynion Cymunedol Haenau 1 a 2 y byddai'r flaenoriaeth isaf.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Carchardai yn adolygu'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu eleni ac yn 2008/09 a bydd yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac anghenion troseddwyr, gan roi blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Gan ddefnyddio tystiolaeth o astudiaethau dethol, dangoswyd bod yr ymyriadau canlynol ar gyfer oedolion yn y gymuned yn fwy effeithiol wrth ostwng troseddu na charcharu: • Triniaeth breswyl ar gyfer cyffuriau • Gwyliadwriaeth • Gwyliadwriaeth gyda thriniaeth ar gyfer cyffuriau.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Rhaid i ni i gyd sicrhau ein bod yn defnyddio'r hyn sydd eisoes ar gael yn hytrach na cheisio dechrau o'r dechrau. Byddai dull gweithredu mwy cydlynol yn gallu bod o gymorth mawr i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	-Mae'r Bwrdd yn gobeithio gweld ailfodelu sylweddol ar strwythur canolog NOMS i leihau costau cyffredinol canolog a biwrocratiaeth er mwyn rhyddhau arian tuag at gyflenwi gwasanaethau uniongyrchol i droseddwyr. - Mae'r 'blaenlwytho' ar dargedau a geir ar hyn o bryd yn cael effaith groes i'r bwriad drwy greu mwy o alw am ymyriadau. Mae'n cynyddu'r nifer ar draul targedu priodol a phorthgadw/blaenoriaethu adnoddau. Byddai dull mesur priodol yn canolbwyntio ar effaith ymyriadau, h.y. cyfran yr achosion a gwblhawyd yn llwyddiannus. - Dylid cael dadl ymarferol o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a rhwng comisiynwyr NOMS a dedfrydwyr ynghylch yr agenda ar 'y galw'. Bydd y toriadau arfaethedig ar gyllid y Gwasanaeth Prawf yn effeithio ar nifer yr ymyriadau a'r gorchmynion cymunedol a thrwyddedau carchar y gellir eu rheoli gan ddilyn y manylebau presennol, felly mae angen cael dadl a chytundeb ar y cyfyngu neu ddogni ar nifer yr achosion a drafodir. - Mae angen mwy o gydnabyddiaeth i effaith rhai mesurau 'effeithlonrwydd'. - Rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyffuriau a rhoi mwy o sylw i ddatblygu darpariaeth ar gyfer alcohol.

Crynodeb o'r Ymatebion i'r
Papur Ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru 2008-09

		- Byddai adolygu gofynion sengl y Gorchymyn Goruchwylio Dedfryd Ohiriedig a thynnu'n ôl y Safonau Cenedlaethol yn gymorth i gynyddu'r gallu i reoli troseddwyr.
14	Heddlu De Cymru	- Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, dylid cynnal gwerthusiad priodol o'r gwasanaethau presennol. Fel y nodwyd, mae nifer y troseddau'n gostwng a byddai'n rhaid inni bwyso a mesur y budd posibl o ran gostwng troseddu ymhellach sydd mewn unrhyw gynlluniau newydd o'u cymharu ag arferion sefydledig sy'n llwyddo i bob golwg.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Nid oes gan y CPS ddigon o wybodaeth i ymateb i'r cwestiwn hwn.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mwy o ddefnydd o ddarpariaethau Dargyfeirio gan Lysoedd. - Cymhwyso darpariaeth Dargyfeirio'r Timau Troseddau Ieuenctid at system cyfiawnder troseddol oedolion. - Ceisiadau am adroddiadau llys am droseddwyr risg isel a/neu ailgyflunio adroddiadau llafar, adroddiadau darparu cyflym ac adroddiadau darparu safonol. - Gostwng nifer y gorchmynion cymunedol a thrwyddedau carchar ar gyfer troseddwyr risg isel a/neu gyfnodau byrrach ar gyfer ymgysylltu statudol. - Byddai llai o fiwrocratiaeth/archwilio/arolygu yn fodd i arbed adnoddau. - Cydgysylltu effeithiol â dedfrydwyr a pholisi effeithiol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Ganolog ynghylch y boblogaeth mewn carchardai ac effeithioldeb gorchmynion cymunedol. Mae angen rhywfaint o fenter ar ran Gweinidogion fel y caiff polisi ei gyfleu'n glir i'r cyhoedd ac i ddedfrydwyr.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mwy o rannu yn y broses gomisiynu yn enwedig rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. - Gellid dargyfeirio achoson Haen 1 posibl drwy adroddiad darparu cyflym ond dim ond (a) os bydd mynediad ar gael yn rhwyddach at wasanaethau prif ffrwd i ddiwallu'r angen a aseswyd a (b) os cwblheir negodiadau â llysoedd ynghylch y rheoli ar yr angen a ragwelir ganddynt.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mae llawer o droseddwyr risg isel yn dod drwy brosesau'r llysoedd wedi cael cosbau cymunedol sy'n galw am fewnbwn sylweddol gan y Gwasanaeth Prawf. Byddai yr un mor rhwydd delio â hwy drwy osod cosb ariannol, rhyddhad amodol neu ddedfryd ohiriedig heb elfen o oruchwyliaeth.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Dylid cadw'r holl feysydd gwaith a gwella rhai agweddau arnynt. Dylid hwyluso prosesau er mwyn gwella dulliau gweithio, e.e. mwy o ddefnydd o gysylltiadau fideo a mwy o gyfleusterau cyswllt fideo mewn carchardai ac mewn swyddfeydd prawf. Gellid cael mwy o effeithlonrwydd, er enghraifft, drwy newid prosesau i sicrhau bod adroddiadau cyn dedfrydu wedi'u paratoi ar gyfer carcharorion sydd wedi'u remandio fel y gall llysoedd ddedfrydu o fewn wythnos ym mhob achos fel arfer safonol.

Rheoli Troseddwyr

Cwestiwn 2: Beth yn eich barn chi sy'n gweithio'n dda wrth reoli troseddwyr yng Nghymru, a beth y mae angen ei wella?

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Un rôl ychwanegol i reolwyr troseddwyr yw meithrin a chynnal brwdfrydedd a sicrhau bod yr hyn a ddysgir o unrhyw ymyriadau'n cael ei roi ar waith. Mae'r rheolwr troseddwyr yn hollbwysig ar gyfer rheoli risg. Mae rôl hefyd i reolwyr troseddwyr drwy gyfrannu at drefniadau MAPPA.
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Mae Tai Hafan yn ymfalchïo yn ei gwaith partneriaeth rhagorol gyda Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys mewn cysylltiad â'r Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig (IDAP), lle mae staff Tai Hafan yn gweithio gyda rhai sydd wedi dioddef oherwydd trais yn y cartref. - Mae cyfathrebu da ac eglurder ynghylch rhannu gwybodaeth yn hollbwysig. - Mae cysylltiadau â'r rhai sy'n dioddef oherwydd troseddu'n werthfawr iawn er mwyn rheoli ymddygiad troseddwyr a sicrhau diogelwch dioddefwyr.
5	Kaleidoscope	- Mae'r rhaglen Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau yn gweithio'n dda yng Ngwent ac yn rhoi gwerth am arian drwy drin pobl yn y gymuned yn hytrach nag mewn carchar. - Byddai gorchmynion hwy o gymorth. - Byddai cynllun graddio i gydnabod bod cleientiaid wedi cwblhau'r rhaglen yn fuddiol i'r gymuned yn gyffredinol ac i'r cleient.
7	Ardal Brawf Gwent	- Mae athroniaeth sylfaenol y Model Rheoli Troseddwyr, sef y dylid rhoi pwyslais ar ddefnyddio adnoddau ac ymyriadau mewn gwaith gyda throseddwyr risg uchel/rhai sydd ag anghenion mawr o ran y duedd i droseddu, yn thema gyfarwydd i'r Gwasanaeth Prawf a bu o gymorth wrth roi'r Model ar waith yn gyffredinol. - Mae'r cysylltiadau rhwng Ardaloedd Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yng Nghymru'n gweithio'n dda a buont yn arbennig o effeithiol wrth sefydlu'r Model. - Cafwyd bod y Grwp Gweithredu ar Reoli Troseddwyr i Gymru Gyfan yn gynllun buddiol ac adeiladol. - Ystyrir ei bod yn hanfodol sefydlu carchar i fenywod yng Nghymru ac mae'r diffyg sefydliadau carcharol ar gyfer troseddwyr gwrywaidd yn y Canolbarth a'r Gogledd yn dal i beri problemau. - Cyfathrebu â charchardai yn Lloegr. - Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol wrth sicrhau cymorth i ddiwallu anghenion sy'n ymwneud â'r duedd i droseddu.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae'r gwaith mewn partneriaeth ag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a chyrff eraill sydd yn y Sector Gwirfoddol yn gwella a byddem yn gobeithio y bydd hyn yn parhau.
10	Prosiect Caplaniaeth	- Mae cysylltiadau rhagorol yng Ngharchar Abertawe; mae cysylltiadau cyfathrebu rhagorol ag Abertawe Ddiogelach; yr Awdurdod Lleol; y Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau; ac Asiantaethau Gwirfoddol.

	Gymunedol Abertawe	
11	Canolfan Byd Gwaith	- Mae lle i ddull cydgysylltiedig o ddatblygu perthynas fwy rhyngweithiol o fewn y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf er mwyn dangos y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i unigolion a chreu mecanwaith yn y ddau gorff hynny ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arferion da rhwng adrannau mewnol e.e. Adsefydlu ac Addysg. Byddai hyn o gymorth i hybu gwell dealltwriaeth o weithdrefnau'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ymysg partneriaid.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae Camau I a II a'r model Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus. - Byddai buddsoddi mewn adeiladau carchar yng ngogledd Cymru yn gwella gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Thrwy'r Gât yn sylweddol, ac yn creu arbedion sylweddol drwy effeithlonrwydd i'r Ardal. - Datblygu gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Arferol/Dros y Penwythnos. Fodd bynnag, mae hyn yn creu costau ychwanegol. - Mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth i wasanaethau i garcharorion tymor byr (hyd at 12 mis). - Byddai canolbwyntio ar anghenion rhai 18-25 mlwydd oed yn y broses gomisiynu a blaenoriaethu/hybu gwasanaethau i'r grwp hwn yn gymorth i ostwng aildroseddu.
14	Heddlu De Cymru	- Mae'r dull cydweithredol amlasiantaethol lle mae'r holl bartneriaid yn ymgysylltu ar lefelau tactegol a strategol yn gweithio'n dda. Er bod y dull hwn, sy'n cynnwys y rhaglen Camddefnyddio Sylweddau a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn benodol, yn un newydd sy'n mynd at wraidd achosion troseddu, gellir gweld ei fod yn fodd effeithiol i ostwng troseddu. - Un gwelliant sylweddol fyddai cysoni'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau i fwy o raddau â dulliau rheoli troseddwyr, a rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r Prawf Cyffuriau wrth Arestio mewn cysylltiad â hyn.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Mae Rhaglen Cyfiawnder Adferol SORI yn ddull effeithiol o ostwng aildroseddu
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	Yn gweithio'n dda: - Gwasanaethau cysylltu â dioddefwyr - Ansawdd OASys - Camau I a II Rheoli Troseddwyr - Gweithredu NOMM - Trefniadau MAPPA - Cydgysylltu statudol mewn cysylltiad ag amddiffyn plant, MAPPA, Byrddau Lleol Diogelu Plant etc. - Systemau adrodd ar droseddau pellach difrifol. - Y cam mawr nesaf fydd sefydlu Cam III Rheoli Troseddwyr a chraffu ar y gweithredu ar y Safonau

		Cenedlaethol newydd. Sylwer y bydd Ardaloedd Prawf Cymru'n destun Arolygiad Rheoli Troseddwyr gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn 2008/09 a rhoddir pob sylw i hynny. Bydd y canlyniadau o gymorth i ddiffinio'r gwelliannau sy'n angenrheidiol.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mae angen gwybodaeth fwy cynhwysfawr am wasanaethau prif ffrwd ar gyfer mynediad drwy atgyfeirio gan Reolwyr Troseddwyr. - Byddai symleiddio gwasanaethau gydag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill o gymorth. - Byddai mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau – gyda'r hwyr ac ar benwythnosau – yn sicrhau gwelliant ond mae'n galw am adnoddau ac am negodi lleol a chenedlaethol i gael mwy o hyblygrwydd ymysg y gweithlu. - Pryderon mawr ynghylch y bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n garcharorion tymor byr. Byddai'r Gwasanaeth Prawf am chwarae rhan ganolog mewn unrhyw ddatblygiad yn hyn o beth i sicrhau y bydd yn cydweddu â dulliau eraill o reoli troseddwyr.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mae unedau sydd wedi'u cydleoli fel yr un yng Nghaerdydd yn gweithio'n dda iawn. Mae cyfleoedd sylweddol ar lefel weithredol i rannu gwybodaeth a chronni adnoddau. Maent hefyd yn ymateb yn gyflymach ar lefel fwy priodol. - Dylai cyfleusterau carchar i fenywod yng Nghymru gael eu hystyried yn flaenoriaeth - Dylid ystyried darparu'n fwy helaeth ar gyfer cyfleusterau cadw i droseddwyr ifanc yng Nghymru. - Yn y tymor byr i ganolig, dylid rhoi mwy o bwyslais hefyd ar gynnwys carchardai yn Lloegr yn y broses MAPPA yng Nghymru. - Bydd cyfleoedd i wella yn y tymor hwy pan fydd y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn cymryd rhan yn ViSOR ac yn dod i arfer ag ef.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Gweithio rhwng asiantaethau - Y berthynas â'r carchar (sef Altcourse, Lerpwl yn achos gogledd Cymru) - MAPPA
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Gwaith grwp lle mae hynny'n bosibl mewn ardaloedd mawr, tenau eu poblogaeth.

Cwestiwn 3: Nid yw Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth, sydd dros 21 oed ac a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y carchar, yn cael eu goruchwylio'n statudol gan y Gwasanaeth Prawf ar ôl cael eu rhyddhau i'r gymuned, ond maent yn debygol iawn o aildroseddu. A ddylem fuddsoddi mewn gweithio â'r grwp penodol hwn o Droseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth?

Crynodeb o'r Ymatebion i'r
Papur Ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru 2008-09

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Targedwch y grwp hwn (llai na 12 mis) drwy ddatblygu cynllun i sicrhau bod awduron adroddiadau cyn dedfrydu yn awgrymu dedfrydau cymunedol o ddwyster priodol. Gwnaed dadansoddiad byr o adroddiadau cyn dedfrydu am droseddwyr sydd wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis a awgrymai y gallai awduron adroddiadau cyn dedfrydu wneud mwy o lawer i argymell dedfrydau cymunedol yn lle dedfrydau byr o garchar.
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Dylech. Bydd troseddwyr sy'n cam-drin a/neu'n defnyddio trais yn erbyn eu partneriaid a'u cyn-bartneriaid yn aml yn cyflawni ymosodiadau pellach os cawsant ddedfryd o lai na 12 mis yn y carchar. Byddem yn argymell mwy o waith gyda'r grwp troseddwyr hwn a'r rhai sy'n dioddef o'u herwydd. Mae troseddwyr sy'n torri amodau eu rhaglen IDAP ac sy'n cael dedfryd o gyfnod byr mewn carchar yn lle hynny'n ystyried hynny'n ddewis hawdd o'i gymharu â chael eu rheoli drwy'r rhaglen IDAP.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Dylech – Drwy gysoni'r gwasanaeth Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth (PPO) yn fanwl â darpariaeth bresennol ac arfaethedig y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn Ne Cymru. Buddsoddi mewn cydleoli timau gyda gweithwyr Timau Ymyrraeth Cyfiawnder Troseddol (CJIT) a PPO a sicrhau bod pwynt cyflenwi gwasanaeth gan bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.
5	Kaleidoscope	- Mae hyn yn hollbwysig o ystyried cyfraddau aildroseddu'r grwp hwn. Yng nghyd-destun triniaeth cyffuriau, dyma'r unig fodd i warantu triniaeth iddynt mewn rhai mannau yng Nghymru.
7	Ardal Brawf Gwent	- Dylech: O ystyried y budd mawr y gellid ei gael o fuddsoddi mwy priodol mewn gwaith gyda Throseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth, ni ddylid colli cyfle drwy beidio â rhoi blaenoriaeth i'r maes gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Dylai NOMS roi ystyriaeth ddifrifol i fuddsoddi i fodloni anghenion grwpiau penodol sy'n dueddol i droseddu gan gynnwys Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth, troseddwyr rhyw, rhai sydd wedi'u carcharu er diogelwch y cyhoedd (IPP) a rhai sy'n cyflawni troseddau trais domestig.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Dylech; mae'r grwp hwn yn achosi lefel uchel o droseddu ac mae angen darparu cefnogaeth ddwys ar ei gyfer drwy lawer o asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth. - Mae amrywiaeth fawr o weithgareddau a chefnogaeth hygyrch yn gallu bod yn fuddiol o ran lleihau'r perygl o aildroseddu ymysg y grwp penodol hwn.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Mae'n sicr ei bod yn bwysig ystyried buddsoddi yn y grwp hwn gan y gallai hynny gael effaith lesol iawn yn y tymor hir o ran gostwng aildroseddu. - Byddai llawer yn dibynnu ar y cyllid a'r adnoddau a byddai angen ymgynghori'n fanwl ag amryw o bartneriaid.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae cyfle i ddatblygu ariannu drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. - Byddem yn gweld rhan i'w chwarae gan y Bwrdd Gostwng Aildroseddu er mwyn sicrhau cysylltiadau priodol drwy gomisiynu ar y cyd drwy Gynllun Cymorth y Cyfnod Pontio, y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a'r agenda ar Gamddefnyddio Sylweddau fel modd priodol i ddatblygu gwasanaethau a chefnogaeth i Droseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth a gafodd ddedfryd o lai na 12 mis.

14	Heddlu De Cymru	- Dylech. Canfuwyd eu bod yn berygl posibl i'r cyhoedd, ac mae cyfle i ymyrryd yn gynnar yn eu cylch troseddu ac atal troseddau pellach, gan leihau'r baich ar ein gwasanaethau craidd.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Dylech, mae'n debygol y bydd Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth a Throseddwyr Ifanc Cyson yn cael eu cyfuno mewn un grwp targed a byddai buddsoddi adnoddau yn y grwpiau hyn yn dod â chanlyniadau llesol. - Rhaid i NOMS dargedu oedolion sy'n garcharorion tymor byr pan ydynt yn y carchar ac ar ôl eu rhyddhau er mwyn ategu unrhyw gyfle ymarferol i'w hadsefydlu a thorri'r cylch o droseddu, mynd i'r carchar a throseddu eto.
16	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rydym yn cytuno y dylid buddsoddi mwy mewn gwaith gyda Throseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth dros 21 oed a gafodd ddedfryd o lai na 12 mis, gan roi blaenoriaeth benodol, o bosibl, i'r rhai 21-25 oed.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae hyn yn dasg i Gynlluniau Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth ym mhob Awdurdod Lleol a dylid cael unrhyw fuddsoddi oddi wrth gwmpas eang o gyrff. Gallai'r Gwasanaeth Prawf gyfrannu os câi adnoddau ychwanegol i wneud hynny. - Mae'n debyg mai'r modd gorau i Ardaloedd Prawf gynorthwyo yw drwy ddatblygu gwasanaethau'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, y mae eu grwp cleientiaid yn debygol o gynnwys llawer o'r troseddwyr hyn.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mae hyn yn digwydd eisoes ond byddai'n fuddiol cael cydnabyddiaeth ariannol wrth ei ehangu a'i wreiddio mewn arferion rhyngasiantaethol. - Gellid talu am ran o'r gwaith hwn a'i ehangu drwy ddefnyddio cyllid Cydgyfeirio'r ESF os bydd y cais presennol yn llwyddo. - A allwn hefyd ystyried cysylltedd â darpariaeth Cynllun Cymorth y Cyfnod Pontio a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau?
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- O ystyried oed y troseddwyr, mae'n ddigon posibl y bydd eu hymddygiad yn reddfol erbyn y cyfnod hwn yn eu bywyd. - Cam mentrus yn hyn o beth fyddai buddsoddi i dargedu'r grwp hwn ar gyfer gorfodi'n unig yn hytrach nag adsefydlu.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Dylid targedu'r buddsoddi ar y perygl o niwed ond gallai hyn gynnwys goruchwylio Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth ar ôl eu rhyddhau.

<u>Targedu ymyriadau ar droseddwyr sy'n achosi'r perygl mwyaf o aildroseddu a pheri niwed</u>

Crynodeb o'r Ymatebion i'r
Papur Ymgynghori ar Gynllun Comisiynu a Busnes NOMS Cymru 2008-09

Cwestiwn 4: Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o ganrannau'r troseddwyr sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf yn ôl y risg. Mae mwy na 57% yn yr Haenau 1 a 2 is. Pa newidiadau y gellid eu gwneud i reoli'r mathau hyn o droseddwyr yn fwy priodol er mwyn darparu mwy o adnoddau i weithio gyda throseddwyr risg uwch?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Sicrhau bod defnyddwyr cyffuriau'n cael cynnig asesiad ac ymyriad byr drwy'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn wirfoddol os oes modd. - Cysoni trefniadau'r Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau cyn ac ar ôl rhyddhau/y ddedfryd â'r broses PPO i sicrhau dilyniant ar gyfer y rhai sy'n gostwng eu patrymau troseddu. - Gwahaniaethu mewnol a gwahanu adnoddau'r Gwasanaeth Prawf. Dyblygu'r drefn mewn rhai rhannau o UDA a chael swyddogion 'prawf' a 'parôl'?
7	Ardal Brawf Gwent	- Gallai fod yn gost-effeithiol ailystyried defnyddio Canolfannau Presenoldeb ar gyfer troseddwyr yn yr haenau is yn enwedig os câi canolfannau o'r fath eu datblygu ar sail partneriaeth. - Datblygu mentora fel ymyriad ar gyfer troseddwyr risg isel, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da mewn cynlluniau eraill. - Defnyddio partneriaethau Menter Gymunedol/Menter Gymdeithasol, wedi'u hategu gan brotocolau clir ac amcanion cyffredin.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	Nid oes gan y Gwasanaeth Carchardai sylw i'w wneud am y cwestiwn hwn. Mae'n ymddangos bod hyn yn fater i'r Gwasanaeth Prawf er y byddem yn cynorthwyo drwy weithio mewn partneriaeth.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Er ei fod yn mynd heb ei ddefnyddio'n aml, gall y Sector Crefyddol/Gwirfoddol fod yn adnodd ychwanegol rhagorol i helpu i fentora, cyfeillachu ac eirioli ar gyfer troseddwyr wrth iddo weithio ochr yn ochr â'r asiantaethau statudol. Mae unigolion yn Haenau 1 a 2 yn ddelfrydol i'w cynnwys yng ngwaith y grwp hwn gan nad ydynt yn peri risg uchel. - Gostyngir y perygl o aildroseddu drwy hwyluso pontio llwyddiannus o'r carchar yn ôl i'r gymuned. Mae cymorth o'r fath yn dechrau wrth eu derbyn i'r carchar, ac yn parhau'n wirfoddol am gyfnod o hyd at dri mis ar ôl eu rhyddhau.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Byddai'r Bwrdd yn bryderus ynghylch camau i 'ddadfuddsoddi' adnoddau yn haenau 1 a 2 gan fod y ffocws presennol ar asesu risg yn gymharol gyfyng. - Gallai peryglon godi o ddiystyru meini prawf sy'n seiliedig ar 'angen' ac mae posibilrwydd o dueddu at droseddu pellach os na ddefnyddir ymyriadau perthnasol (i fodloni anghenion rhai sy'n dueddol i droseddu). - Gellid defnyddio rhai ymyriadau'n well pe bai llai o fiwrocratiaeth. - Byddai hyblygrwydd wrth reoli camau gorfodi yn ôl risg yn rhyddhau adnoddau. - Mae lle i adolygu'r posibilrwydd o 'godi tâl' – mynnu bod troseddwyr yn talu am y cyfan neu ran o'r ymyriad a ddarperir iddynt lle byddai ymyriadau byr, addas a phenodol yn hybu cydymffurfiad ac yn lleihau'r galw am

		adnoddau.
14	Heddlu De Cymru	- Y cwestiwn yw pam y maent yn haen 1 neu 2. Ai am fod yr oruchwyliaeth ar gael eisoes a bod hynny'n eu hatal rhag troi'n risg mwy. Rhaid ystyried yr effaith hirdymor os oes unrhyw fwriad i ddileu'r oruchwyliaeth hon. Os na cheir ymyrraeth/goruchwyliaeth gynnar, gallai'r rhain fod yn haenau 3 neu 4 yn y dyfodol, sef y rhai yr ydym yn ystyried eu goruchwylio'n fwy manwl. - Mae angen inni ystyried dull trefnus o oruchwylio sy'n seiliedig ar flaenoriaethau, gan enwi partneriaid allweddol sy'n gallu dod i'r adwy ar gyfer troseddwyr lefel is gan gynnwys y sector gwirfoddol fel y gellir canolbwyntio mwy o sgiliau ac arbenigedd ar droseddwyr haenau 3 neu 4.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	Nid oes gan y CPS ddigon o wybodaeth i allu gwneud sylw.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Dylai'r Safonau Cenedlaethol newydd fod o gymorth i roi ymateb cymesur drwy oruchwyliaeth i Haenau 1 a 2. - Drwy ddefnyddio Goruchwylwyr Troseddwyr gyda'r model NOM ceir cyfle i ryddhau amser ac adnoddau Rheolwyr Troseddwyr. - Gallai atgyfeiriadau i Weithwyr Allweddol yn y sector gwirfoddol, cymunedol a phreifat fod yn economaidd ond mae angen dangos bod y gost yr uned yn gost-effeithiol.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mae'n bosibl y byddai addysgu'r llysoedd mewn cysylltiad â gofynion presennol y Safonau Cenedlaethol yn arwain at ddargyfeirio rhai, ond byddem am geisio sicrhau dull is-gontractio lle gwneir gorchmynion fel y bydd anghenion rhai sy'n dueddol i droseddu'n cael eu diwallu pan fydd angen targedu cyllid y Gwasanaeth Prawf mewn mannau eraill. - Mae angen inni nodi hefyd, yng nghyd-destun atal troseddu, fod cyfran o'r troseddau difrifol pellach yn digwydd yn yr haenau is. Nid yw risg yn sefydlog a thrwy gadw golwg ar asesiadau y tu hwnt i'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Safonau Cenedlaethol byddai modd hwyluso'r gwaith o fonitro risg ac atal lefelau troseddu uwch a'r risg uwch sy'n ganlyniad i hynny.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Nid yw'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer yr holl droseddwyr yn Haenau 1 a 2 yn ymateb o reidrwydd i'r risg sy'n cael ei beri gan yr unigolyn. Gellid bod yn fwy effeithlon drwy gael graddfa ymyriadau fwy hyblyg, cyfnodau goruchwylio byrrach a'r gallu i ryddhau gorchmynion yn rhwyddach pan fydd ymyriadau cyfyngedig wedi'u cwblhau. - Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol yn mynnu bellach y bydd gofyniad ychwanegol yn cael ei atodi i'r gosb gymunedol pan dorrir gorchymyn. Yn aml bydd troseddwyr dryslyd neu analluog yn torri eu gorchymyn dro ar ôl tro ac felly'n cael ymyriadau ar raddfa nad yw'n briodol i'w hamgylchiadau o reidrwydd.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Y rhagdybiaeth yn y cwestiwn yw nad yw troseddwyr risg isel yn codi i'r haenau uwch; ac nid yw'n cydnabod y byddai gwaith gyda'r rhai mewn haenau is yn gallu eu hatal rhag aildroseddu a chodi i haen uwch.

Ystadegau Ymchwil a Datblygu NOMS

Cwestiwn 5: Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni'r ymrwymiadau yn Dysgu Newid er mwyn darparu gwasanaethau addysg a sgiliau i droseddwyr yng Nghymru. Derbynnir bod llawer iawn o waith da eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, ond sut y gallwn wella a chyflymu'r broses o gydgysylltu darpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth mewn carchardai ac yn y gymuned?

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Mae llawer o droseddwyr sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn gallu cael budd o ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. - Gellir hyrwyddo hyn drwy reolaeth dda ar droseddwyr gan ganolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau.
5	Kaleidoscope	- Mwy o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol. E.e. byddai'r prosiect cwmpawd yng Nghasnewydd ar ei ennill o ddefnyddio dull partneriaeth yn enwedig os gellid sicrhau cyllid drwy leihau'r ymrwymiad mewn meysydd eraill.
7	Ardal Brawf Gwent	- Byddai'n fuddiol pennu targedau mwy perthnasol i'r ardal leol, fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth cyffredin i'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf, a fyddai'n cyfeirio at waith gan Ardaloedd Prawf i ddatblygu Cynlluniau Dysgu Unigol a gychwynnwyd yn y ddalfa.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaeth Prawf Gwent eisoes wedi dechrau gwella'r broses o gydgysylltu staff a throseddwyr a bydd yn dal i wneud hynny os darperir adnoddau ar ei gyfer.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Sicrheir llawer o'r gwelliant drwy Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth gan y Sector Crefyddol/Gwirfoddol ym maes dilyniant rhwng y ddalfa a bywyd yn y gymuned drwy Sgiliau Byw/hyfforddi. Mae'r set sgiliau hon yn galluogi troseddwyr i ddod yn fwy hyderus (cael rheolaeth) wrth gael mynediad at ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth fwy traddodiadol.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Er derbyn bod llawer yn cael ei wneud o fewn carchardai i ddelio â mater sgiliau sylfaenol, mae angen system fwy effeithiol rhwng carchardai, y Gwasanaeth Prawf, adrannau llywodraeth ac addysg gymunedol i rannu gwybodaeth am gyflawniadau troseddwyr penodol. Mae angen cyflwyno dull effeithiol o drosglwyddo cyflawniadau addysgol rhwng cyrff perthnasol er mwyn peidio â dyblygu gweithdrefnau.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae problemau o ran cyfnewid gwybodaeth am 'gymhwysedd' rhwng carchardai a Canolfan Byd Gwaith, h.y. ni ellir cofrestru troseddwr cyn ei ryddhau, ac mae angen datrys hyn. - Mae cryn le i ddatblygu darpariaeth 'drwy'r gât' a darpariaeth yn y gymuned drwy ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. - Mae lle i wella'r mynediad at y ddarpariaeth cyn rhyddhau troseddwyr gan fod hynny'n cael ei atal gan y

		rheoliadau presennol. - Mae cyfran sylweddol o droseddwyr yn economaidd anweithgar ac maent yn hawlio budd-daliadau analluedd neu fudd-daliadau eraill. - Mae angen rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd ar gyfer gwaith cydgysylltiedig rhwng NOMS a chynllun newydd y Llywodraeth ar Fudd-dal Analluedd.
14	Heddlu De Cymru	- A ellir creu modd i gysoni'r ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn y gymuned â'r ddarpariaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a'i integreiddio ag ef o bosibl, h.y. darparu'r hyfforddiant yn y carchardai gan y timau cymunedol.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a chyflwyniadau i'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Arddel cysyniad Carchardai Cymunedol lle mae darpariaeth leol o wasanaethau carcharol sy'n gysylltiedig â darpariaeth gymunedol ar gyfer yr holl ymyriadau ar gyfer rhai sy'n dueddol i droseddu. - Tan hynny bydd arnom angen cysondeb rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf o ran darparwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth etc. Dylai'r Fforwm PP/P a/neu'r Llwybr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth fod yn fodd i hyrwyddo hyn o ran unrhyw gomisiynu ar y cyd. Mae angen rhoi sylw penodol i'r canlynol: - Mae angen cyfnewid gwybodaeth drwy drosglwyddo Cynlluniau Dysgu Unigol i dimau Prawf fel mater o arfer. Mae'n hollbwysig cynnwys carchardai yn Lloegr. Gellid defnyddio'r gronfa ddata ar gyfer dysgu gan droseddwyr a ddatblygwyd gan yr LSC yn Lloegr fel model, ond byddai'n rhaid cryfhau'r cysylltiadau contractiol â chyrff darparu dysgu yng Nghymru i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i greu gwell hygyrchedd. - Dylai'r adrannau Dysgu mewn Carchardai gymryd mwy o sylw wrth i unigolyn gychwyn ar gwrs o'r posibilrwydd o'i barhau yn y gymuned. - Mae llawer o gyrff darparu yn y gymuned yn frwd iawn dros agor eu drysau i ddysgwyr sy'n droseddwyr, ond mae rhai'n fwy amharod i wneud hynny.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Rhaid rhoi blaenoriaeth i gontractau neu dargedau cydgysylltiedig 'drwy gât y carchar' a hwyluso cofrestru a pharatoi ar gyfer gwaith. - Buddsoddi mewn cysylltiadau drwy dechnoleg ar gyfer gwaith datblygu gyda throseddwyr yn y carchar ac ar ôl eu rhyddhau.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Heb gael carchardai yn y gymuned leol, mae'n anodd cysylltu adnoddau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth mewnol ag asiantaethau yn y gymuned y mae'r carcharor yn cael ei ryddhau iddi. - Gellid ehangu'r ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth i gynnwys cynlluniau gweithgarwch dargyfeiriadol sydd hefyd yn meithrin hunan-barch a threfn er nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogaeth fel y cyfryw o reidrwydd.

20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Mewngymorth - Cyfathrebu effeithiol - Carchar yng ngogledd Cymru
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Mae hwn yn gwestiwn sy'n ymwneud â gwella cydgysylltu nad ydym yn gymwys i'w ateb yng nghyd-destun carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.

Cyffuriau ac Alcohol

Cwestiwn 6: Sut y gallwn wella ein gwasanaethau alcohol i ddiwallu anghenion troseddwyr yn well a gostwng aildroseddu?

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Mae angen diffiniadau o Fodelau Gofal yn gyntaf. Mae'n bosibl y bydd ar yfwyr dibynnol angen triniaeth hwy a mwy strwythuredig wedi'i darparu gan asiantaeth arbenigol, tra gallai yfwyr peryglus gael budd o ymyriadau byr, y gellir hyfforddi Rheolwyr Troseddwyr i'w darparu.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Sicrhau y bydd y buddsoddi a'r datblygu ar gyfer y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn y dyfodol yn cynnwys llwybrau atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau alcohol, yn enwedig yn y bloc celloedd ar ôl arestio. O fis Gorffennaf 2008 bydd y gwasanaeth Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau newydd yn cynnwys y ddarpariaeth atgyfeirio ar ôl arestio a geir ar hyn o bryd ond ni fydd yn darparu asesiadau ac atgyfeiriadau mewn cysylltiad ag alcohol. Gofynnwyd i bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol/Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau ariannu darpariaeth yn ei le o'r arian sydd wedi'i ddyrannu'n awr. - Sicrhau bod contractau camddefnyddio sylweddau rhwng y Gwasanaeth Prawf a darparwyr y 'trydydd sector' neu'r sector gwirfoddol yn cael eu haildrefnu/ailgomisiynu i ganolbwyntio ar alcohol a bod y cydweddiad rhwng y Gwasanaeth Prawf a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau wedi'i adolygu i sicrhau bod timau ymyrraeth cyfiawnder troseddol yn gweithio i ddelio â materion sy'n ymwneud â chyffuriau [heblaw'r Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau]. - Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau yn delio ar y cyd â materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau / sylweddau lluosog a salwch meddwl cydfodol pan amlygir hynny gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
5	Kaleidoscope	- Gweithio gyda Thimau Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau ar brosiectau sydd wedi'u hariannu ar y cyd.
7	Ardal Brawf Gwent	- Lle mwy amlwg i alcohol yn strategaethau NOMS Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gamddefnyddio sylweddau a neilltuo mwy o gyllid fel na fydd y maes gwaith hwn yn cystadlu yn erbyn y nifer mawr o

		flaenoriaethau eraill ar gyfer ariannu mewn ardaloedd lleol. - Rhaid ystyried y cysylltiadau rhwng yfed alcohol [yn ogystal â defnyddio cyffuriau] a materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn hyn o beth, a'r modd mwyaf effeithiol i ymdrin â hwy fyddai drwy gynlluniau ar gyfer datblygu strategaethau a darpariaeth iechyd meddwl yng Nghymru.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae angen i NOMS gomisiynu dadansoddiad manwl o anghenion mewn cysylltiad â throseddu treisgar sy'n ymwneud ag alcohol a darparu adnoddau i ddelio â'r canlyniadau a nodir.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Mae'n hollbwysig cael gwasanaeth neilltuol ar gyfer y grwp troseddwyr hwn. Gellir sicrhau canlyniadau trawiadol drwy adsefydlu a chreu gwasanaethau cymunedol cyfannol i roi cymorth parhaus.
12	Uned Partneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	- Gan fod 65% o garcharorion, ar gyfartaledd, yn gadael y carchar heb ddedfryd neu â dedfryd o lai na 12 mis, nid yw OASys ond yn cynnig darlun rhannol o'r anghenion am driniaeth yn y carchar.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Cyflwyno AUDIT fel y dull sgrinio eilaidd safonol ar gyfer Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. - Integreiddio alcohol yn y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau i wella mynediad i wasanaethau a'r ddarpariaeth ohonynt. - Datblygu cynllun Atgyfeirio ar ôl Arestio sy'n targedu camddefnydd o/camddefnyddwyr alcohol. - Adolygu ac egluro'r blaenoriaethau polisi ar gyfer model 'ymwrthod' yng nghyd-destun darparu gwasanaethau. - Mae lle i fanteisio ar y cydgyfeirio rhwng y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a Chynllun Cymorth y Cyfnod Pontio i ddatblygu gwasanaethau alcohol. - Mae angen gofal i beidio â chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu triniaeth ar gyfer haenau 3 a 4. Felly dylai'r Bwrdd Strategaeth Gostwng Aildroseddu hybu dull gweithredu traws-sectoraidd o ddatblygu amryw o ymyriadau, h.y. drwy'r ymarferydd cyffredinol i ddarparu triniaeth drwy gyfweliad.
14	Heddlu De Cymru	- Dylid pennu strategaethau ar gyfer y dyfodol gyda'r bwriad o gydweddu gwasanaethau rheoli troseddwyr a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol drwy bartneriaid statudol a gwirfoddol, i dargedu symptomau cynnar y camddefnydd o sylweddau. - Ymchwilio i weld pa ffynonellau gwybodaeth eraill sydd ar gael i ganfod alcoholiaeth er mwyn caniatáu ymyriadau cynnar, e.e. y gwasanaeth tân ar ôl ymateb i alwadau i gartrefi lle mae'r meddianwyr wedi meddwi, gwasanaethau meddyg teulu a fferyllwyr.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Ystyried hybu cynlluniau ategol e.e. mae cynlluniau gwydrau plastig yn unig wedi gostwng nifer yr achosion o anafiadau difrifol yn sylweddol. - Gallai Rhybudd Amodol fod yn benderfyniad priodol mewn achosion addas.
16	Llywodraeth	Mae'n amlwg yn ein barn ni fod triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yn llai datblygedig

	Cynulliad Cymru	na'r rhai yn y gymuned er bod y cyfnod yn y ddalfa yn gallu cynnig cyfle hollbwysig i ddelio â phroblemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r dewisiadau ar gyfer triniaeth alcohol yn benodol yn gyfyngedig iawn. Pan gynigir triniaethau clinigol, mae'r rhain yn gyfyngedig weithiau i ddadwenwyno ac nid oes unrhyw driniaethau gwybyddol ymddygiadol neu seicolegol ar gael i'w hategu. Mae rhai carchardai'n cynnig ymyriadau seicolegol ar gyfer carcharorion ond yn aml mae gorlenwi a'r camau i symud carcharorion rhwng carchardai o ganlyniad i hynny'n golygu nad yw carcharorion yn gallu cwblhau rhaglenni. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i ddal i weithio gyda NOMS i bwyso dros gael gwelliannau yn y dewisiadau triniaeth ar gyfer carcharorion o Gymru yn yr holl garchardai. Mae'n hollbwysig y bydd y comisiynu ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau gan NOMS wedi'i gysylltu'n briodol â'r hyn a gomisiynir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y gymuned. Cafwyd enghreifftiau yn y gorffennol pan na ddigwyddodd hyn ac mae hynny'n rhwystro pontio di-dor rhwng y carchar a'r gymuned. Credwn y dylid ystyried buddsoddi mewn llwybrau triniaeth alcohol ar gyfer troseddwyr y deuir i gysylltiad â hwy drwy atgyfeirio ar ôl arestio (neu ar bwyntiau eraill yn y system cyfiawnder troseddol) – yn debyg i'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, neu'n ychwanegol ati.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae'r Llywodraeth wedi canolbwyntio ar gyffuriau (sylweddau anghyfreithlon) ar draul gwasanaethau ar gyfer camddefnyddio alcohol. Mae angen adolygu'r polisi hwn. - Dylid creu cysylltiadau â'r Sector Iechyd a'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a phreifat i gael gwasanaethau (na ddylem eu hariannu) ac i gomisiynu gwasanaethau cyd-rhwng cyrff os yw'n briodol.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Darparu cyllid i dimau gweithredu camddefnyddio sylweddau a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau gan gynnwys Alcohol yn y cytundebau comisiynu - Mwy o wasanaethau iechyd prif ffrwd a mynediad ar gyfer rhai mewn haenau is
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mae darpariaethau WGCADA [Cyngor Gorllewin Morgannwg yn erbyn Cyffuriau ac Alcohol] yn enghraifft ragorol o ymyriad camddefnyddio sylweddau sydd ar gael oddi wrth asiantaethau yn y sector gwirfoddol. - Yn strategol, dylem barhau i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau fel un agenda yn hytrach na'i gwahanu'n gamddefnyddio cyffuriau AC alcohol. - Mae angen mwy o gyfleoedd ar gyfer ymyriadau gwybyddol ymddygiadol ar gyfer pobl ifanc [yfed ar y penwythnos/goryfed mewn pyliau] y mae eu hymddygiad yn dechrau troi'n droseddu.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Mater ar gyfer Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Gwella'r cynlluniau gwaith grwp ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Gwaith Di-dâl

Cwestiwn 7: Ym mha ffyrdd y gallwn weithio gyda'r llysoedd a darparwyr i ystyried dewisiadau eraill yn lle dedfrydau gwaith di-dâl lle nad oes eu hangen efallai i ostwng aildroseddu, neu lle nad ydynt yn gosb briodol i droseddwyr?

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
7	Ardal Brawf Gwent	- Canfod mwy o gyfleoedd i roi adborth i Ynadon a Barnwyr am faint yr adnoddau sy'n cael eu "gwastraffu" weithiau ar droseddwyr y byddai'n fwy priodol delio â hwy drwy osod dirwy a'u rhyddhau.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Byddai'r Gwasanaeth Carchardai yn falch o gael cyfarfod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i gyfrannu at ystyriaeth i ddewisiadau eraill.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	Mae hwn yn faes nad oes gennym unrhyw brofiad personol ohono.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae'r Bwrdd yn credu y dylid ailystyried y 'polisi' presennol o leihau'r defnydd o waith di-dâl. Yng Ngogledd Cymru rydym wedi delio'n llwyddiannus â chynnydd yn y 'galw' rhwng y naill flwyddyn a'r llall drwy ddefnyddio cyrff sy'n bartneriaid i ni a lleoliadau gan asiantaethau sydd wedi ychwanegu gwerth sylweddol at yr amrywiaeth o waith sydd ar gael a'r canlyniadau i droseddwyr ac i'r gymuned. Oherwydd hynny, dylid gweld a datblygu Gwaith Di-dâl fel ymyriad sy'n symud i fyny'r tariff yn hytrach nag i lawr gan fuddsoddi ynddo o ganlyniad. - Mae lle i ailystyried swyddogaeth Gwaith Di-dâl a'i ddefnyddio fel prif lwybr ar gyfer troseddwyr di-waith a lleihau'r galw ar gyfer troseddwyr sydd mewn gwaith lle byddai cosbau fel dirwy neu gyrffyw yn ddewisiadau eraill effeithiol.
14	Heddlu De Cymru	- Os oes capasiti digonol i ddefnyddio'r dull hwn, dylid ei ddefnyddio. Bydd yn pwysleisio eto yr effaith a'r niwed a gafwyd o'r troseddu ar y gymuned, ac yn atal unigolyn sydd wedi'i asesu'n droseddwr risg isel rhag dal ymlaen ar lwybr troseddol.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Drwy ymgynghori â'r Tîm Gweithredu Lleol ar Rybuddion Amodol i drafod y defnydd o Rybuddion Amodol fel dargyfeiriad priodol gan y Llysoedd mewn rhai achosion.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae rhybuddion amodol yn un dewis – fel rhan o strategaeth ddargyfeirio gan y llysoedd ar gyfer troseddwyr risg isel. - Mae'r llysoedd yn frwd iawn dros Waith Di-dâl (a heb awydd gosod dirwyon ar y rhai sy'n byw mewn tlodi) felly

		mae'n bosibl y bydd ymdrech i leihau oriau Gwaith Di-dâl yn ymarferol. - Mae Gwaith Di-dâl yn cael ei ystyried yn gosb, a hynny'n gwbl briodol, ac mae'r cyhoedd yn ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol ac adferol. Felly yn hytrach na'i feirniadu, beth am ei gefnogi a buddsoddi ynddo fel mater o bolisi.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Egluro gofynion y Safonau Cenedlaethol – ymgyrchu i hybu ymwybyddiaeth o'r ddirwy. - Ennill cefnogaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a noddwyr eraill i gael mwy o gyllid ar gyfer Gwaith Di-dâl oherwydd ei fudd i'r gymuned. - Mae llysoedd a chymunedau'n credu mewn Gwaith Di-dâl a dylem geisio canolbwyntio arno o'r newydd yn hytrach na'i leihau. - Ei ddefnyddio fel dull ar gyfer y ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, gan ganolbwyntio ar baratoi pobl ar gyfer gwaith fel y bydd yn fwy deniadol i lysoedd a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mwy o ddefnydd o gosbau ariannol a chosbau rhyddhad amodol. Fodd bynnag, dylid cael rheolaeth dynnach ar y dewisiadau hynny'n gyntaf fel y bydd mwy o hygrededd iddynt yng ngolwg y llysoedd a throseddwyr. Er enghraifft: rhaid talu dirwyon ac, os na wneir hynny, bydd canlyniadau. - Dylid ystyried gwneud mwy o ddefnydd o raglenni cyfiawnder adferol, yn enwedig wrth gysylltu hyn ag anghenion y dioddefwr.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Y posibilrwydd o atgyfeirio i'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Y cam cyntaf yw darparu tystiolaeth i ddangos bod y llysoedd yn defnyddio gwaith di-dâl yn amhriodol. Mae'n sicr y bydd yr ystadegau'n dangos bod mwy o ddefnydd o waith di-dâl fel dewis a bod llai o ddefnydd o ddirwyon ond a ellid dangos bod dirwy neu ddewis arall yn ddedfryd fwy priodol? Os gellir dangos hyn, un ai mewn achosion penodol neu'n fwy cyffredinol, gall NOMS roi anogaeth i dargedu gofynion cymunedol yn fwy priodol drwy- • Addysgu ynadon a barnwyr. Ysbeidiol fu'r ddarpariaeth o ddigwyddiadau hyfforddi dan arweiniad y Gwasanaeth Prawf; • Addysgu staff NOMS. Y dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod dedfrydau a dewisiadau cymunedol yn cael eu defnyddio'n briodol yw sicrhau bod Swyddogion Prawf a Chynorthwywyr y Gwasanaeth Prawf yn rhoi cyngor effeithiol yn y llys ac yn eu hadroddiadau; • Meithrin cysylltiadau gwaith da rhwng staff NOMS sy'n rhoi cyngor i'r llysoedd a staff y llys, cynghorwyr cyfreithiol, ynadon a barnwyr. Dylid meithrin diwylliant lle na fydd ofn ar Swyddogion Prawf a

		Chynorthwywyr y Gwasanaeth Prawf gymryd rhan mewn deialog yn y llys gydag ynadon a barnwyr ynghylch dewisiadau ar gyfer dedfrydu a'u hargymhellion. Lle ceir deialog dda sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a ffydd yn staff y Gwasanaeth Prawf, mae modd rhybuddio rhag defnydd amhriodol o ofynion cymunedol gan hyrwyddo dedfrydu effeithiol; • Darparu dewisiadau effeithiol yn lle gwaith di-dâl. Nid yw ynadon yn debygol o ymateb i alwadau am fwy o ddefnydd o ddirwyon a llai o ddefnydd o waith di-dâl os na ellir gweld bod y ddirwy'n ddewis effeithiol. Nid ydyw mewn llawer achos, am fod y troseddwr yn ddi-waith, fel arfer, ac nid yw lefel y ddirwy y gellir ei gosod yn adlewyrchu difrifoldeb y trosedd; • Cadw'r ymddiriedaeth mewn gofynion goruchwylio. Mae ynadon wedi cael gwybod yn ddiweddar nad yw'r safonau cenedlaethol ond yn galw am ddau gyfarfod rhwng y troseddwr a'r swyddog goruchwylio yn ystod cyfnod yr oruchwyliaeth os yw'r troseddwr yn un risg isel (haen 1). Os nad yw'r llys yn ymddiried mewn goruchwyliaeth fel gofyniad, bydd tuedd i ychwanegu gofynion eraill gan gynnwys gwaith di-dâl; Bydd y llysoedd bob amser yn ystyried dewisiadau eraill a gosodir dedfryd o waith di-dâl mewn achosion priodol lle gwelir yr angen am elfen o gosb. Mae'n bosibl bod y ffaith bod y cyfraddau ar gyfer ail euogfarn yn is yn arwydd o effeithiolrwydd penderfyniadau o'r fath.

<u>Gweithio 'Drwy Gât y Carchar'</u>

Cwestiwn 8: Beth y gallwn ei wneud i ddatblygu gwaith 'drwy'r gât' a sicrhau ei fod yn gwreiddio'n well?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Sicrheir gwaith 'drwy'r gât' os byddwch yn gweithredu'r model Rheoli Troseddwyr fel y bwriadwyd – felly dylid rhoi blaenoriaeth i hynny.
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Drwy wella a chynyddu'r gwaith gyda throseddwyr drwy'r Rhaglen Rhyddid fel y gwneir yng ngharchardai Abertawe a Chaerdydd. Mae gwaith dwys dros gyfnod byr gyda throseddwyr treisgar yn fwy effeithiol na gwaith sydd wedi'i rannu dros gyfnod o amser.
4	Rhaglen Ymyriadau	- Sicrhau bod modd i staff y Gwasanaeth Prawf weld gwybodaeth a gasglwyd drwy'r broses CARAT a'r timau

	Cyffuriau De Cymru	ymyrraeth cyfiawnder troseddol/rhaglen ymyriadau cyffuriau am garcharorion sy'n dibynnu ar gyffuriau sydd yn ffrydiau gwybodaeth PALBASE a DIR pan fyddant yn y carchar a phan fyddant y tu allan: hwyluso cynllunio effeithiol ar gyfer y ddedfryd a'r cyfnod ar ôl eu rhyddhau. - Sicrhau bod yr holl staff mewn carchardai wedi derbyn protocol y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau ar rannu gwybodaeth. - Cydleoli staff y Gwasanaeth Prawf a'r heddlu gyda staff y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau er mwyn darparu gwasanaeth di-fwlch.
7	Ardal Brawf Gwent	- Mae'r pwyslais parhaus ar gyflenwi rhaglenni achrededig ar y cyd [e.e. carcharorion sydd wedi'u rhyddhau ar drwydded dros dro yn derbyn darpariaeth yn y gymuned neu droseddwyr yn cael eu cludo i garchardai lleol] yn fenter sy'n debygol o hyrwyddo hyder cyd-rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ac, yn ôl y profiad a gafwyd hyd yn hyn, mae'n gallu sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'r ddwy asiantaeth. - Ystyrir ei bod yn hollbwysig cael cysylltiadau cryfach rhwng cynlluniau CARAT a'r Rhaglenni Ymyriadau Cyffuriau mewn cysylltiad â chamddefnyddio sylweddau, dibyniaeth, a chynllunio dedfrydau'n gyffredinol.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae carchardai cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau 'drwy'r gât' gyda chydweithwyr mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r trydydd sector a byddant yn dal i chwilio am ffyrdd i ddatblygu'r berthynas hon, ar yr amod y bydd adnoddau ar gael.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Mae llwyddiant unrhyw system o'r fath yn gysylltiedig â'r berthynas sy'n cael ei meithrin tra bydd y troseddwr yn y ddalfa. Mae canfyddiadau cadarnhaol mewn cysylltiad â gwaith ar ôl rhyddhau gan fentoriaid yn awgrymu y gallai cyn-garcharorion gael budd penodol, ar ôl eu rhyddhau, o ddod i gysylltiad â rhai sydd â mwy o amser i roi sylw i anghenion yr unigolyn sy'n aml yn gallu cyfrannu mewn modd neilltuol drwy gynnig cefnogaeth bersonol ac emosiynol.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Rydym wedi hen gydnabod mai gwaith mewn partneriaeth yw'r ffordd ymlaen wrth helpu ein cwsmeriaid ac, er mwyn datblygu'r cysylltiadau hynny ymhellach, mae angen inni: - Roi cymorth i'n gilydd wrth ddatblygu systemau a phrosesau a fydd yn arwain yn y pen draw at fodd mwy effeithiol i gyn-droseddwyr gael gwaith ar ôl eu rhyddhau o'r carchar . - Ceisio datblygu'n barhaus y cysylltiadau rhwng cyrff sydd mewn partneriaeth drwy gydweithio'n gyson i ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau i bawb. - Cydnabod y nodau, yr amcanion a'r targedau sydd gan wahanol gyrff a helpu ein gilydd i fynd â'r maen i'r wal, fel y ceir agenda ddilys ar gyfer partneriaeth.
12	Uned Partneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	- Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at waith ynghylch cyffuriau drwy gât y carchar.
13	Ardal Brawf	- Mae angen gwneud mwy i leoli carcharorion yn agos i ardal eu cartref cyn eu rhyddhau.

	Gogledd Cymru	- Mae lle i ddatblygu cyfnodau byr o waith di-dâl fel gofyniad ar drwyddedau ac i ddatblygu ei botensial fel y prif fodd i ostwng aildroseddu. - Sicrhau gwelliannau o ran cysylltedd rhwng carchardai a'r gymuned, h.y. rhyddhau carcharorion ar drwydded dros dro i gymryd rhan mewn rhaglenni. - Mae'r cyfleoedd presennol i gael mynediad at gyllid Ewropeaidd i gynnal gwaith drwy gât y carchar yn cynnig cyfle gwirioneddol i feithrin mwy o gydbwysedd rhwng adnoddau sydd wedi'u buddsoddi yn y carchar a'r rhai sydd wedi'u buddsoddi i ddilyn y carcharor i'r gymuned.
14	Heddlu De Cymru	- Gyda dyfodiad y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd, rhaid edrych yn fanwl ar aildroseddu ymysg y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd nid oes systemau digonol i ostwng aildroseddu yn y maes hwn, yn enwedig yn y Gwasanaeth Carchardai. Mae angen adolygu'r maes hwn.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Nid oes gan y CPS ddigon o wybodaeth i wneud sylw.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Rhaid i weithwyr pob llwybr RRS weithio ar hyn o safbwynt comisiynu. - Dylai'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf gyfuno adnoddau a thargedu canlyniadau ar y cyd mewn cysylltiad â gostwng troseddu. Yn nhrefn blaenoriaeth: - Mae'n hollbwysig y bydd carcharorion digartref yn cael cymorth o ran tai, a hynny'n cynnwys cysylltiadau agosach â'r awdurdod lleol a'u nôl wrth borth y carchar. - Yn achos troseddwyr di-waith, un ai dod o hyd i waith cyn eu rhyddhau neu eu trin fel blaenoriaeth gan Canolfan Byd Gwaith ar ôl eu rhyddhau o ran cael budd-daliadau ac, yn bwysicach, drwy'r pontio at gyflogaeth. - Problemau dyled. Byddai'n fuddiol cael mwy o waith mewn carchardai i ddelio â'r problemau hyn er mwyn cynnig rhyw fath o sefydlogrwydd ar ôl eu rhyddhau.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Penodiadau ar y cyd, e.e. tiwtoriaid rhaglenni er mwyn darparu rhaglenni a defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf hyblyg. Dylid pwyso am newid codau cenedlaethol ac amodau er mwyn caniatáu hyn. - Lleoli mwy o raglenni yn y ddalfa neu mwy o ddefnydd o drwyddedau dros dro i ryddhau carcharorion.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mwy o bwyslais ar roi pobl leol mewn carchardai lleol lle bynnag y bo modd. - Efallai y bydd cyfleoedd i integreiddio carchardai [fel sefydliadau] â chymunedau. - Dylid cael mwy o gyfathrebu a chydgysylltu rhwng gwasanaethau iechyd meddwl fforensig yn y ddalfa ac yn y gymuned.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Er bod ychydig eithriadau, fel y rhai a nodwyd, ychydig o ymwybyddiaeth sydd yn y llys o raddau'r gweithio 'o'r naill ben i'r llall'.

Cwestiwn 9: Credir bod gwaith 'drwy'r gât' ar ei fwyaf effeithiol pan fydd carcharor yn cael ei gadw'n agos i'w gymuned ei hun. Pa gynllun y gellid ei ddatblygu a fyddai'n hybu'r dull gweithredu hwn?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Carchar yng ngogledd Cymru ar gyfer dynion a menywod - Carchar i fenywod, neu adain i fenywod yn ne Cymru. - Mynediad ar gyfer staff y carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gronfa ddata'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, PALBASE, i sicrhau bod gofal yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol.
7	Ardal Brawf Gwent	- O leiaf un carchar ychwanegol yng Nghymru a'r flaenoriaeth wedi'i rhoi i droseddwyr sy'n fenywod. Ymchwilio ymhellach i ganfod nifer y troseddwyr o Gymru sydd mewn sefydliadau yn Lloegr ar hyn o bryd a nifer y rhai o Loegr sydd yn y carchar yng Nghymru ar hyn o bryd.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Er bod y nifer sydd mewn carchardai ar ei uchaf erioed, rydym yn cydnabod bod angen trosglwyddo troseddwyr fel eu bod yn agosach i'w cymunedau eu hun, tua diwedd cyfnod eu dedfryd o leiaf. Byddai anghenion carcharorion o Gymru, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig, yn arbennig o bwysig mewn unrhyw gynllun.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Mae llawer yn dychwelyd i fyw i'r gymuned y daethant ohoni. Mae rhan bwysig i'w chwarae wedyn gan gyrff lleol sy'n gweithio yn y cymunedau hynny ac yn eu deall. - Gallai cymunedau crefyddol roi cymorth gwerthfawr i ddelio ag allgáu cymdeithasol, gan eu bod yn gallu cynnig mynediad at rai o'r grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf mewn cymdeithas. - Mae gwerthoedd ac ymlyniadau crefyddol yn gallu cymell unigolion i gymryd rhan yn eu cymunedau ac mewn gweithredu cymdeithasol. - Mae grwpiau crefyddol yn gallu defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau mewn cymunedau.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Byddai buddsoddi mewn carchar yng ngogledd Cymru yn rhoi hwb sylweddol i ailintegreiddio carcharorion a gostwng aildroseddu.
14	Heddlu De Cymru	- Adsefydlu ac ymsefydlu, sicrhau bod asiantaethau sy'n bartneriaid yn deall y budd a geir o hynny.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Nid oes gan y CPS ddigon o wybodaeth i wneud sylw.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- System newydd arloesol o Garchardai Cymunedol. - Gellid cysylltu hon â rhwydwaith o Ganolfannau Cyfiawnder Cymunedol yng Nghymru lle y cydleolir asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol yn ogystal â darparwyr gwasanaethau perthnasol eraill, e.e. y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i droseddwyr etc. - Carcharorion o Gymru i'w dychwelyd i garchardai yng Nghymru.

		Sefydlu carchar i fenywod yng Nghymru.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Hyblygrwydd ar ran y Gwasanaeth Carchardai wrth bennu categorïau diogelwch y sefydliadau. Cadw pobl yn eu hardal yn enwedig tua diwedd elfen garcharol eu dedfryd (peidio â'u trosglwyddo i amgylchedd agored gan y gallem ddefnyddio'r wythnosau olaf ar gyfer rhaglenni 'drwy'r gât' etc ar lefel leol). - Datblygu mwy o adnoddau tebyg i AP fel rhan o gontinwwm o ddarpariaeth yng nghyd-destun diogelwch.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Byddai dedfrydau o gyfnodau rhan amser mewn carchar lleol yn caniatáu i droseddwyr gadw eu cysylltiadau â'u teuluoedd a gwaith wrth iddynt gyflawni eu dedfryd ac yn cynnig gwell rhagolygon iddynt ar ôl eu rhyddhau. - Byddai dewisiadau sy'n cynnig anogaeth a sancsiynau yn peri i unigolion ganolbwyntio ar raglenni Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth tra byddant yn y carchar. - Byddai timau daearyddol agosach rhwng ardaloedd y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn cynnig mwy o gyfle i gynnig gwell gwasanaeth i'r troseddwr ac i'r gymuned drwy well dealltwriaeth o faterion sy'n codi'n lleol.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Datblygu mwy o garchardai yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer rhai ifanc a menywod.

Cwestiwn 10: Wrth flaenoriaethu adnoddau prin, sut y gallwn sicrhau bod yr ymyriadau priodol yn cael eu darparu i garcharorion ar yr adeg briodol er mwyn rhoi'r fantais fwyaf? A ddylai hyn gynnwys carcharorion ar remand hefyd?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Peidio â chwtogi ar asesiadau fel modd i geisio arbed adnoddau. Dim ond ar ôl gwneud asesiad priodol o risgiau ac anghenion y gellir blaenoriaethu a thargedu (ac, o safbwynt Diogelu'r Cyhoedd, gwneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau).
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Darparu mynediad ar gyfer staff y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai i system PALBASE y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau: cynllunio gofal a chyfathrebu'n well.
7	Ardal Brawf Gwent	- Dylai'r rheolaeth ar y rhai mewn carchardai fod yn seiliedig ar anghenion y troseddwyr, nid ar nifer y gwelyau sydd ar gael. Wedi dweud hynny, dylid cyfyngu'r ymyriadau ar gyfer carcharorion ar remand i rai ar gyfer eu hanghenion presennol, yn enwedig materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn gwneud pob ymdrech eisoes i ddiwallu anghenion critigol yr holl droseddwyr gan ddilyn canllawiau ar yr arferion gorau drwy ystyried risg, diogelwch y cyhoedd a hyd y ddedfryd.
10	Prosiect Caplaniaeth	- Gwaith medrus a systematig gyda throseddwyr mewn cysylltiad â'u ffordd o feddwl, agweddau meddwl a chymhelliant yn ogystal ag ymdrin â'u problemau ymarferol ochr yn ochr â 'dilyniant' gwirioneddol mewn gwaith

	Gymunedol Abertawe	'drwy gât y carchar'.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae'n bosibl bod cyfran sylweddol o'r carcharorion sydd ar remand neu sydd wedi'u dedfrydu'n rhai sydd mewn cysylltiad â gwahanol asiantaethau darparu, neu'n adnabyddus iddynt. Mae angen canolbwyntio ar y modd i ganfod hynny a'i ddilyn er mwyn peidio â dyblygu gwasanaethau neu eu darparu mewn modd darniog neu ddigyswllt. - Rhoi blaenoriaeth i'r agenda hon ar 'ddilyniant gofal' a pheidio â datblygu 'gwasanaethau newydd' heb angen.
14	Heddlu De Cymru	- Dylai gynnwys carcharorion sydd ar remand. Os ydynt wedi'u cadw yn y ddalfa am y tro cyntaf, mae'n bosibl mai hwn fydd y cyfle cyntaf i gynnwys rhai ohonynt mewn rhyw fath o raglen rheoli troseddwyr. - Er mwyn canfod a yw'r adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer yr ymyriadau priodol, mae angen inni werthuso'r arferion presennol a gweld a ydynt yn llwyddo, a pham.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Mae'r CPS yn teimlo y dylai ymyriadau fod ar gael i'r holl garcharorion.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Dylid cynnwys hyn i gyd yng nghynllun y ddedfryd ac mae hynny'n galw am weithredu'r system Rheoli Troseddwyr yn achos yr holl garcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar drwydded. Mae hefyd yn galw am Garchardai Cymunedol a chyfleusterau cynadledda fideo. - Carcharorion ar remand yw 20% o'r rhai sydd yn y carchar ac maent yn aml ar 'garwsél' fel y byddai'n anodd cynllunio ymyriadau, yn enwedig gan fod llawer ohonynt yn cymryd misoedd i sicrhau canlyniad effeithiol.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Asesu risg yw'r allwedd i hyn – rhannu OASys rhwng pawb - Defnyddio'r adran hunanasesu yn y ddalfa: beth y maent yn credu y mae arnynt ei angen i wella eu sefyllfa a'u rhagolygon
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mwy o Raglenni Trin Troseddwyr Rhyw yn y carchar - Darparu mwy o raglenni rheoli dicter yn y gymuned. - Dylai'r holl ddedfrydau fod wedi'u 'blaenlwytho', drwy roi cynifer o ymyriadau ag sy'n bosibl ar ddechrau'r ddedfryd. - Defnydd gwael ar adnoddau, at ei gilydd, fyddai darparu ymyriadau i'r rhai sydd ar remand. Yr eithriad i hynny fyddai ymyriadau ar gyfer iechyd meddwl, y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy ymyriadau cynnar lle mae carchardai'n datblygu cynlluniau personol gydag adolygiadau rheolaidd.

Materion sy'n ymwneud ag Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Cwestiwn 11: Sut y gallem wella'r gwasanaethau a ddarperir i fenywod sy'n droseddwyr, oedolion ifanc sy'n droseddwyr ac oedolion sy'n agored i niwed?

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Mae tystiolaeth sy'n dangos nad oes angen gwahanol ymyriadau ar gyfer gwahanol grwpiau o droseddwyr. Mae angen darparwyr medrus a rheolwyr troseddwyr sy'n gallu addasu'r ymyriad yn ôl anghenion penodol pob troseddwr. Nid yw datblygu ymyriadau penodol i'r ddau ryw neu ar gyfer grwpiau ethnig yn gost-effeithiol ac mae ffyrdd gwell i ddiwallu anghenion grwpiau lleiafrifol.
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Gwell dilyniant yng ngwaith staff/gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â throseddwyr. Os oes angen newid gweithwyr allweddol, dylid cymryd mwy o ofal i roi gwybod am hynny i droseddwyr, dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae Tai Hafan hefyd yn croesawu rhaglen newydd NOMS sydd ar gyfer menywod sy'n droseddwyr a menywod sydd mewn perygl o droseddu yn benodol.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Codwch garchar yng ngogledd Cymru ar gyfer rhai < 21 oed, dynion sy'n oedolion a menywod. - Codwch garchar i fenywod, neu adain i fenywod yn ne Cymru. - Mynediad ar gyfer staff y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gronfa ddata'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, PALBASE, i sicrhau bod gofal wedi'i gyd-drefnu'n effeithiol. - Sicrhau bod yr holl grwpiau sy'n agored i niwed ac yn anodd eu cyrraedd wedi'u canfod a'u tracio'n effeithiol a'u bod yn cael cynnig cefnogaeth a sylw o ran pennu brys ar ôl eu rhyddhau i'w cymunedau drwy amryw o ymyriadau. - Sicrhau adolygiad o hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Newid (POVA) ar gyfer yr holl staff Cyfiawnder Troseddol a rhoi blaenoriaeth i hwyluso'r hyfforddiant hwn. - Secondio staff i 7 pwynt cyflenwi'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn Ne Cymru a defnyddio ystadau presennol y rhaglen i gyflwyno prosiect Turnaround.
7	Ardal Brawf Gwent	- Menywod: Darparu ymyriadau i fenywod yn unig ar draws yr ardal. Carchar i fenywod yng Nghymru. - Oedolion ifanc: Adnoddau carchar pwrpasol ar gyfer oedolion ifanc. - Oedolion hyglwyf: Gwell darpariaeth iechyd meddwl, yn y carchar ac yn y gymuned. - Egluro'r cyfrifoldeb a'r cyfraniad y disgwylir eu cael gan Ardaloedd Prawf lleol mewn cysylltiad â'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion sydd newydd eu sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol i sicrhau cysondeb a sefydlu safonau ymarfer gofynnol.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Dylai NOMS gomisiynu dadansoddiad manwl cyn penderfynu beth yw anghenion y grwpiau hyn ac wedyn darparu'r cyllid priodol.
10	Prosiect	- Nid oes gennym unrhyw wybodaeth berthnasol i'n galluogi i gynnig ymateb gwybodus i'r cwestiwn hwn. Rydym

	Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	yn gweithio'n bennaf gydag Oedolion Gwrywaidd sy'n Droseddwyr.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Pennu anghenion y gwahanol grwpiau er mwyn canfod pa gymorth sydd ar gael drwy ein gwasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. - Sefydlu'r mecanweithiau angenrheidiol i hybu ymwybyddiaeth o'r cymorth penodol sydd ar gael a chanfod proses atgyfeirio a fydd yn sicrhau gwasanaeth di-dor i'r cwsmeriaid hyn wrth eu paratoi ar gyfer gwaith.
12	Uned Partneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	- Nid oes sôn am ddynion yng ngogledd Cymru.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Creu'r cysylltiadau polisi strategol â Pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, un ai o fewn y llwybrau presennol neu drwy ddatblygu llwybr penodol, h.y. rhai 16 – 25 mlwydd oed. - Ar hyn o bryd ni roddir fawr o sylw neilltuol i grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau o fewn y llwybrau ac nid yw'r pwyslais presennol ar gadw cynlluniau gweithredu yn hytrach nag ar ganlyniadau yn ffafriol ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau penodol. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio gwybodaeth monitro gynhwysfawr ar draws y sector, yn ogystal â chomisiynu ymchwil i sefyllfa oedolion ifanc yng nghyd-destun y ddarpariaeth cyfiawnder troseddol. - Mae cysylltiadau perthnasol â meysydd plant a theuluoedd, sgiliau rhianta a strategaethau sy'n datblygu ar yr agenda Gostwng Aildroseddu a strategaethau amlasiantaethol lleol y dylid eu datblygu yn y strategaeth nesaf ar gyfer Gostwng Aildroseddu.
14	Heddlu De Cymru	- Dylid asesu pob unigolyn wrth ei dderbyn i'r system garchardai a phennu ei anghenion fel y gellir nodi cynllun priodol ac asiantaethau cymorth ar ei gyfer yn gynnar.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Carchar i fenywod yng Nghymru, ymyriadau drwy'r ddarpariaeth gweithiwr iechyd meddwl mewn gorsafoedd heddlu er mwyn canfod troseddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, carchar newydd yng ngogledd Cymru i gartrefu oedolion a menywod sy'n droseddwyr a throseddwyr ifanc gyda chyfleusterau Cymraeg, mynediad ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Ar hyn o bryd mae'r holl garcharorion o ogledd Cymru'n mynd i garchardai yn Lloegr.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae'r cyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt yn nodi'r union anghenion. - Sut y mae cyrff yn cydweithio, yn cael adnoddau ac yn cydgomisiynu'r ddarpariaeth o wasanaethau. - Rhowch yr arian ar y bwrdd a bydd cydweithwyr yn creu'r gwasanaethau angenrheidiol ar y cyd. - Tai. Drwy Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl a Fforymau Digartrefedd, rhaid i'r Gwasanaeth Prawf feithrin cysylltiadau â rhai mewn awdurdodau lleol, ac yn genedlaethol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn datblygu prosiectau i ddiwallu anghenion y grwpiau hyn sy'n agored i niwed.

		- Gwasanaethau a fydd yn helpu unigolion i chwarae eu rhan yn llawn yn y gymuned, felly mae'n hollbwysig y ceir datblygu pellach ar brosiectau i fodloni anghenion troseddwyr o ran cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. - Rhaid i waith fod yn brif amcan y cynlluniau dedfryd ar gyfer yr holl droseddwyr, gan gydnabod mai drwy waith a'r ymrwymiad i'r gymuned a geir o ganlyniad iddo y maent yn fwyaf tebygol o barhau heb droseddu.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Darpariaeth AP hyblyg - Drwy eu cysylltu â strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio prosiectau a Cefnogi Pobl - Mae angen rhoi mwy o gyfle Lwybrau'r Cynllun Gweithredu ar Ostwng Aildroseddu (RRAP) i roi gwasanaethau ar waith a'u hannog i sicrhau gwasanaethau mwy cydgysylltiedig ym mhob maes yn y system cyfiawnder troseddol ac mewn gwasanaethau datganoledig.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Dylid buddsoddi mwy mewn prosesau cam-drin domestig a MARAC
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Mwy o waith gydag Asiantaethau Gwirfoddol. - Cyfathrebu â gwasanaethau Iechyd Meddwl a gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. - Datblygu Gwasanaeth Diogelwch Isel. - Addysg ynghylch Materion Menywod
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy ddarparu gwasanaeth gwybodaeth mechnïaeth fel mater o arfer i ddiffynyddion sy'n ymddangos yn y llys ar ôl bod yn y ddalfa am y tro cyntaf ac wedyn.

Cwestiwn 12: Pa gymorth ymarferol y gallech ei ddarparu, neu ei awgrymu, i hybu'r gwaith o ddatblygu'r prosiect Turnaround a'i roi ar waith?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	- Pa dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod y prosiect Turnaround yn gostwng troseddu? A yw'n well nag ETS os yw hynny'n cynnwys mwy o reolaeth ar droseddwyr sydd wedi'i haddasu ar eu cyfer? Mae'r un pwynt yn berthnasol i droseddwyr ifanc.
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Mae'n werthfawr cael dilyniant ymhlith gweithwyr allweddol er mwyn ymgysylltu â throseddwyr dros y tymor hir. Byddai'n fuddiol cael mentoriaid teuluol i weithio dros y tymor hir gyda'r uned deuluol.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Codi carchar yng ngogledd Cymru ar gyfer rhai ifanc < 21 oed, oedolion gwrywaidd a menywod - Codi carchar i fenywod, neu adain i fenywod yn ne Cymru. - Mynediad ar gyfer staff y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gronfa ddata'r Rhaglen Ymyriadau

		Cyffuriau, PALBASE, i sicrhau bod gofal yn cael ei gyd-drefnu'n effeithiol. - Sicrhau bod yr holl grwpiau sy'n agored i niwed ac yn anodd eu cyrraedd wedi'u canfod a'u tracio'n effeithiol a'u bod yn cael cynnig cefnogaeth a sylw o ran pennu brys ar ôl eu rhyddhau i'w cymunedau drwy amryw o ymyriadau. - Sicrhau adolygiad o hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Newid (POVA) ar gyfer yr holl staff Cyfiawnder Troseddol a rhoi blaenoriaeth i hwyluso'r hyfforddiant hwn. - Secondio staff i 7 pwynt cyflenwi'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn Ne Cymru a defnyddio ystadau presennol y rhaglen i gyflwyno prosiect Turnaround
7	Ardal Brawf Gwent	- Rhaid ystyried y bwriad i roi'r prosiect Turnaround ar waith drwy fuddsoddi dros y tymor hir yng nghyd-destun yr amgylchedd presennol a'r disgwyl y bydd cyllidebau'n aros yn eu hunfan fel arfer o hyn ymlaen. - Bydd tystiolaeth ymchwil o'r cynllun peilot ar gyfer Turnaround yn ddefnyddiol wrth benderfynu pa lefel blaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r cynllun hwn ac o ble y bydd cyllid ar gael.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae Carchardai Cyhoeddus Cymru eisoes yn rhoi cymorth i'r prosiect hwn ac mae wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Yn ôl y profiad o weithio gydag Oedolion Gwrywaidd sy'n Droseddwyr, mae'n anodd gwneud sylw gwybodus am y maes hwn. Fodd bynnag, pe byddai modd cael Caplaniaeth Gymunedol ar gyfer Troseddwyr Benywaidd, byddai hynny'n un modd i wella'r sefyllfa bresennol.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae mwy o le i gynnwys y cyrff partneriaeth presennol yn y maes hwn. Pennu a chwmpasu'r ddarpariaeth o fewn y cynigion presennol ar gyfer cyllid Cydgyfeirio. - Canolbwyntio'n well ar ganlyniadau o ran amrywiaeth yn y cynlluniau gweithredu nesaf ar gyfer Llwybrau Gostwng Aildroseddu.
14	Heddlu De Cymru	- Efallai fod cyfle i adrannau'r heddlu ymgysylltu â'r maes hwn, e.e. Trais Domestig a Diogelu'r Cyhoedd, er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth. Gellid hefyd ystyried troi at y sector gwirfoddol i gael dull gweithredu tymor hir mwy cynaliadwy os na ellir cynnal ffrwd ariannu gyson. Dylai'r sector addysg chwarae rhan o bwys, gan fod ystadegau'n dangos bod diffyg addysg yn amlwg ymhlith troseddwyr.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Nid oes gan y CPS ddigon o wybodaeth i wneud sylw am hyn
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae'n galw am set gyfan o wasanaethau cynhwysol i helpu troseddwyr benywaidd i fyw bywydau di-drosedd. Dylai hyn gynnwys darparu cymorth ym maes tai a chyflogaeth a hyfforddiant. - Mae angen i Turnaround ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu menywod i reoli a gwella'r berthynas sydd ganddynt â'u plant ac, os oes angen, helpu menywod i ddygymod â'r penderfyniadau anodd sydd er y budd gorau i'r plentyn a chaniatáu i'r fenyw ddygymod â hyn a meithrin rôl sefydlog ym mywyd y plentyn.

		- Gellir atgyfeirio menywod i'r gwasanaethau a ddarperir ar yr amod y cawn ein briffio'n briodol - Gall Rheolwyr Troseddwyr gynnwys y prosiect yn y broses cynllunio dedfryd a gallant gydgysylltu â Gweithwyr Allweddol perthnasol dan NOMM. - Gellir creu cysylltiadau â'r cyrff gwirfoddol, cymunedol a phreifat lleol sy'n dod i gysylltiad â menywod a materion sy'n ymwneud â thrais domestig etc
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Cysylltu hyn â chyfundrefnau Mangreoedd Cymeradwyedig wrth ddatblygu cyfleusterau. - Hefyd i sicrhau mwy o berchnogaeth a dulliau gweithredu cydgysylltiedig rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. - Nid oes angen inni ddyfeisio gwasanaethau newydd o reidrwydd i lenwi bylchau, os gallwn weithio gydag eraill i ailasesu'r ddarpariaeth bresennol a'r trefniadau ar gyfer mynediad
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Nid ydym yn gyfarwydd â'r prosiect Turnaround – felly nid ydym mewn lle i roi ymateb gwybodus

Cwestiwn 13: Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau penodol i ystod o grwpiau lleiafrifol ac mae'n bartner pwysig o ran deall y materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ac o ran ei rôl fel eiriolwr. Beth yw'r modd gorau inni gomisiynu gwasanaethau gan y sector gwirfoddol a chymunedol a fydd yn helpu i ddarparu eiriolaeth i'r defnyddiwr, a gwasanaethau diwylliannol sensitif i droseddwyr yng Nghymru?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Gwella gwasanaethau sy'n darparu cyswllt ar gyfer cyfeirio/cefnogaeth ar gontinwwm rhwng y trosedd a'r cyfnod rhyddhau ac ar ôl hynny. Dylent fod yn asiantaethau sydd â hanes o lwyddiant wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ac sydd â phrofiad o weithio mewn amryw o gyd-destunau diwylliannol. - Bydd safbwynt sy'n ystyried y teulu'n uned yn werthfawr yn hyn o beth.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Dulliau effeithiol o fonitro atgyfeiriadau i wasanaethau, y mynediad i'r gwasanaethau hynny a'r graddau y cedwir grwpiau lleiafrifol yn y gwasanaethau; gwneud monitro'n amod dan y contract.
5	Kaleidoscope	- Ceir problemau wrth sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cwblhau gwaith ond nid yw'r cyrff comisiynu'n rhedeg y gwasanaeth mewn gwirionedd drwy'r broses gomisiynu. Yr ateb yw sicrhau bod nodau penodol a'r canlyniad wedi'u pennu wrth gomisiynu ond bod lle i hyblygrwydd ac arloesi o ran cyflawni'r gwaith. Yn ogystal â hynny, gall NOMS hyrwyddo arferion da yn y sector gwirfoddol.
7	Ardal Brawf Gwent	- Y gofyniad i ymgysylltu â grwpiau o bobl fudol sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru. Mae'r costau cyfieithu'n profi'n afresymol a byddai ymchwil i'r posibilrwydd o ymdrin â'r mater hwn ar lefel Cymru gyfan bron yn sicr o

		arwain at arbedion ac yn hwyluso parhad gwasanaeth o ansawdd da i droseddwyr, dioddefwyr a'u teuluoedd.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Os yw NOMS yn bwriadu comisiynu gwasanaethau i gyflawni'r gwaith hwn, rydym yn awgrymu cynnal archwiliad manwl o anghenion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Mae'n bwysig cynnwys y cymunedau crefyddol yn y maes hwn: nid oes sôn am y grwp hwn yn y ddogfen ymgynghori ac mae goblygiadau difrifol i hynny. Mae angen egluro'r rhan y mae NOMS (Cymru) yn ei weld ar gyfer cymunedau crefyddol. - Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod grwpiau crefyddol yn gallu chwarae rhan o bwys wrth geisio cyrraedd tri nod:- • adnewyddu dinesig (dinasyddiaeth weithredol), • cryfhau cymunedau, a chyfranogi wrth ddiwallu anghenion y cyhoedd. - Mae angen agenda fwy cynhwysfawr ar gyfer adnewyddu dinesig sy'n cydnabod bod cyfranogiad dinasyddion yn werthfawr ynddo'i hun ac sy'n dangos mor bwysig yw creu cysylltiadau o fewn a chyd-rhwng cymunedau yn ogystal â Llywodraeth. Os yw cyfranogiad dinasyddion i gael ei hyrwyddo, rhaid rhoi blaenoriaeth i ddeall y cymhellion a'r arferion sydd gan ddinasyddion sydd wedi ymgysylltu gan fod cymdeithas ddinesig yn dibynnu ar hynny. - Beth a ddisgwylir gan bwy yn y sector crefyddol– a pham? Pa wahaniaeth y mae NOMS (Cymru) yn ei weld rhwng rôl grwpiau crefyddol a rôl cyrff cymunedol eraill? I ba raddau y mae NOMS (Cymru) yn deall y math o gefnogaeth ac adnoddau y gallai fod arnynt eu hangen? - Mae cyrff crefyddol yn wynebu ystyriaethau tebyg i'r rhai yng ngweddill y sector gwirfoddol a chymunedol a gallent ddysgu oddi wrth ei gilydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos ei bod yn anarferol cynnwys grwpiau crefyddol mewn strwythurau ffurfiol. Mae ymchwil yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth a lefel isel o lythrennedd crefyddol ymysg llawer o'r staff mewn asiantaethau statudol, sydd mewn rhai achosion yn gyfystyr â rhagfarn yn erbyn grwpiau crefyddol.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae'n ymddangos bod y cwestiwn hwn yn ystumio safbwynt cenedlaethol NOMS sy'n disgrifio fframwaith comisiynu sy'n "fach", yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac yn nodi mai gweithio mewn partneriaeth a chomisiynu 'lleol' yw'r ffordd ymlaen. - Comisiynu lleol gan Fyrddau Prawf yw'r modd mwyaf priodol i ddatblygu ymatebion lleol i anghenion lleol ac ymgysylltu â defnyddwyr lleol. - Mae angen i Ardaloedd lleol ddatblygu polisi ac arferion lleol i hybu ymgysylltu cadarnhaol â defnyddwyr gwasanaethau. Rôl y corff comisiynu yn y broses hon yw pennu'r meini prawf neu'r safonau y dylid eu bodloni/cyrraedd o fewn proses y cytundeb lefel gwasanaeth/contract.
14	Heddlu De Cymru	- Ystyriwch greu Grwpiau Cynghori Annibynnol yn debyg i'r rhai a drefnir gan wasanaethau'r heddlu. Gallai pob un o ardaloedd y Gwasanaeth Carchardai neu'r Gwasanaeth Prawf ffurfio un grwp o'r fath i gynghori ac eirioli

		dros ddefnyddwyr mewn meysydd diwylliannol sensitif o fewn poblogaeth y carchardai.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Drwy ymgynghori â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Cael cyhoeddusrwydd drwy seremoni wobrwyo.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Defnyddio'r ymchwil a wneir yn sir Benfro ym maes y sector gwirfoddol a chymunedol a gwasanaethau i droseddwyr. Mae angen cynnal ymchwil drwy wneud arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau. - Mae Ardaloedd Prawf yn ymdrechu o hyd i hybu ac ehangu eu comisiynu yn y maes hwn. - Nid yw'n debygol y bydd llawer o werth i ymgyngoriadau a gwaith mapio pellach.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Cyfethol rhai o blith grwpiau ambarél i Fyrddau Prawf a grwpiau llywio - Talu am secondio staff i'r grwpiau hyn i ddibenion datblygu - O reidrwydd, dylid canolbwyntio yn hyn o beth ar ymatebion lleol i faterion lleol. - Y rôl ranbarthol yw pennu'r cyd-destun a chanfod modd i sicrhau adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau o fewn fframwaith ehangach, drwy brosiectau sydd wedi'u prisio, a ddatblygir ar lefel leol.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Byddai'n fuddiol i wasanaethau Cyngor ar Bopeth gael cyfle i gymryd rhan yn y maes gweithgarwch hwn. - Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i grwpiau cymorth eraill i leiafrifoedd, e.e. MEWN, BAWSO, y gellid eu cynnwys mewn proses atgyfeirio drwy'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Ariannu Gwasanaethau Eirioli. - Ymgysylltu (Cysylltiadau rhwng asiantaethau) - Rhwydweithio
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Nid yw hyn o fewn cwmpas arbenigedd y llysoedd.

Cwestiwn 14: Fel rhan o'n rôl gomisiynu, byddwn am gael adborth o ansawdd da gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau i'n helpu i wella'r ddarpariaeth. Pa ddarpariaeth y gwyddoch amdani sy'n bod eisoes yng Nghymru a allai hyrwyddo hyn, a beth yw'r moddau mwyaf effeithiol i gael adborth ystyrlon y gallai cyrff darparu ei ddefnyddio?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Mae'r dull o gynnal ymgyngoriadau â defnyddwyr gwasanaethau gan y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn ne Cymru wedi'i adlewyrchu mewn manylebau gwasanaeth newydd. Byddem yn falch o roi gwybod i chi am unrhyw un o'r prosesau.

		- Ymchwil gymunedol sy'n cael ei gwneud ar hyn o bryd gan Brifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn ar ran Llywodraeth y Cynulliad/y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau ar fynediad i wasanaethau'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau i rai mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r cyfraddau cadw perthnasol [Caerdydd ac Abertawe] - Casglwyd data ystadegol sylweddol am yr holl grwpiau lleiafrifol sy'n ymuno â'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau ac yn ei gadael drwy PALBASE ac am y monitro gan y Rhaglen a'r monitro ar ddangosyddion perfformiad allweddol.
7	Ardal Brawf Gwent	- Byddem yn awgrymu bod llawlyfr Arolwg EFQM Cymru Gyfan yn ffynhonnell wybodaeth dda ar gyfer hyn.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae gan y Gwasanaeth Carchardai nifer o systemau sy'n monitro gwasanaethau ac yn darparu adborth oddi wrth ddefnyddwyr.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Nid yw asiantaethau yn y sector Crefyddol/Gwirfoddol yn cael mynediad at rai offer neu rai mathau o wybodaeth i allu cofnodi canfyddiadau fel y gallai NOMS (Cymru) ofyn. - Gallai ymchwil ansoddol gyfrannu cymaint â dulliau mesur meintiol at gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n peri i unigolion aildroseddu neu ymatal rhag troseddu a bod o gymorth felly i ddatblygu gwasanaethau effeithiol. - Os datblygir targedau a dangosyddion cenedlaethol, dylai hynny fynd law yn llaw â datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer ymchwil barhaus, er mwyn sicrhau bod y ddwy set data yn ategu ei gilydd. - Un o'r meysydd pwysicaf y dylai NOMS (Cymru) ymddiddori ynddo yw amrywiadau lleol o ran troseddu, felly mae'n hollbwysig cynnwys gwybodaeth leol, fel yr ardaloedd y bydd troseddwyr yn dychwelyd iddynt, lefel y cymorth sydd ar gael yn yr ardaloedd hynny, bylchau mewn gwasanaethau, adnoddau cymunedol, etc
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Cylchlythyr y Gwasanaeth Prawf 2007/10 - Mae enghreifftiau o ragoriaeth yn Ewrop (Sweden) lle mae defnyddwyr wedi datblygu cyrff ymaelodi ar gyfer hunangymorth y gellid ymchwilio iddynt a rhoi prawf arnynt yng Nghymru. - Mae angen gwreiddio'r ymgysylltu â defnyddwyr yn y broses gomisiynu fel cyfrifoldeb i'r corff darparu
14	Heddlu De Cymru	- Dylid ystyried a yw'n ymarferol cynnal gweithdy i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau i ystyried y cwestiwn hwn a'r modd gorau i ddatblygu arferion rhannu gwybodaeth, a gallai hyn gynnwys grwpiau defnyddwyr sefydledig yn ogystal â grwpiau cynghori annibynnol fel y nodwyd uchod.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- O Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae arweiniad ar arferion da, sy'n cynnwys enghreifftiau mewn Ardaloedd Prawf yng Nghymru, wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar yn un o Gylchlythyrau'r Gwasanaeth Prawf (PC10/2007: Offender Engagement Good Practice Guide). - Mae Tîm EFQM y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru wedi llunio casgliad o adborth ac ymatebion i ymgyngoriadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

		- Yn Ardal Brawf Dyfed-Powys rydym yn rhoi cofrestr o'r adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid gyda phob un o'n harolygon. - Mae NOMS Canolog wedi comisiynu ymchwil ar adborth gan droseddwyr - bu Ardal Brawf Dyfed-Powys yn helpu gyda hyn.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mae nifer o adnoddau a methodolegau ym mhortffolio ymchwil Bwrdd Prawf De Cymru - Camau gweithredu dan y cynllun cydraddoldeb
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Proses adborth hunanasesu OASIS ar ddiwedd y cyfnod o oruchwyliaeth. Nid oes unrhyw drefniadau eraill ar gyfer cyfweliadau ymadael.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Archwilio. - Holiaduron. - Deialog
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy Fforymau Barnwrol Ardal a Grwpiau Dedfrydwyr y Gwasanaeth Prawf.

Y Gymraeg

Cwestiwn 15: Sut y gallwn sicrhau bod anghenion o ran y Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u diwallu'n briodol? A ddylid blaenoriaethu adnoddau i ddiwallu anghenion o ran y Gymraeg i droseddwyr sydd mewn carchardai yn Lloegr ac, os felly, sut?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
7	Ardal Brawf Gwent	- Nid yw'n fater amlwg yn yr Ardal Brawf hon ac mae anghenion mwy taer gan weithwyr mudol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Ardaloedd eraill yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus wrth ddarparu gwasanaeth i droseddwyr a dioddefwyr lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae'n ymddangos yn deg ac yn rhesymol y dylid neilltuo symiau ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer hyn.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Rydym yn gweithio ar Gynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn ymdrin â'r mater hwn.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol	- Y ffordd hawsaf i gael gwybodaeth gywir yw gofyn i droseddwyr sy'n wynebu heriau ieithyddol mewn carchardai yn Lloegr yn ogystal â'r rhai yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth i ddangos pa seilwaith a pha lefel ddarpariaeth sy'n angenrheidiol.

	Abertawe	
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Mae hyn yn fater i'w bennu gan y corff comisiynu yn y broses contractio a lle'r corff darparu yw dangos ei fod yn cydymffurfio â'r safon gyflenwi ofynnol. - Byddai angen ystyried fformiwla ar gyfer y costau cydymffurfio a chyflenwi mewn trefniadau comisiynu a chontractio yn y dyfodol. - Mae'r pedair Ardal Brawf yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn archwiliad o Gynlluniau Iaith yr Ardaloedd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dylai fod yn ofynnol i'r holl gyrff darparu ddangos sut y maent yn monitro'r angen am wasanaethau i siaradwyr Cymraeg a'u hansawdd. - Mae lle i wella'r gwasanaethau sydd ar gael i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn carchardai yng Nghymru. - Byddai datblygu carchar yng ngogledd Cymru'n fodd i wella'r ddarpariaeth i garcharorion Cymraeg eu hiaith yn sylweddol. - Dylid lleoli carcharorion Cymraeg sydd yn Lloegr mor agos ag y bo modd i Gymru a dylai NOMS fynnu bod carchardai yn Lloegr sy'n dal carcharorion Cymraeg eu hiaith yn datblygu Cynllun Iaith Gymraeg i alluogi carcharorion i gyfathrebu â charcharorion Cymraeg eraill a'u teuluoedd yn Gymraeg.
14	Heddlu De Cymru	- Dewis un o'r carchardai yng Nghymru i fod yn unig ganolfan i dderbyn carcharorion Cymraeg eu hiaith. Byddai hyn yn fwy cost-effeithiol ac yn ei gwneud yn haws cwrdd â'r gofynion hyn, yn hytrach na gwasgaru adnoddau prin ar draws ardal eang.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Dan y cynllun nid oes angen cynnig gwasanaethau Cymraeg i garcharorion y tu allan i Gymru. Fel arall, dylid ceisio cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi cymorth mewn cysylltiad â gwasanaethu carcharorion Cymraeg eu hiaith yn Lloegr. - Mae Ardal Brawf Dyfed-Powys yn nodi anghenion o ran y Gymraeg, ond gan nad oes digon o staff Cymraeg eu hiaith i ddarparu gwasanaethau, mae anhawster sylfaenol. - Mae cryn wrthwynebiad o hyd i gyfieithu dogfennau NOMS Canolog, fel dogfennau OASys a chynlluniau dedfryd a thempledi Adroddiad Cyn Dedfrydu, ar eu traul hwy. - Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau Cymraeg Ardaloedd Prawf Cymru ar hyn o bryd. - Mae'n bwysig gwneud ymdrech i leoli troseddwyr o Gymru mewn carchardai yng Nghymru, yn hytrach na cheisio darparu gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai yn Lloegr, sy'n debygol o fod yn ddrud iawn o ran adnoddau os gwneir hynny mewn nifer mawr o garchardai yn Lloegr.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Mwy o gydgysylltu - Rhannu cynlluniau iaith ac adnoddau – rhai teithiol yn neau Cymru

		- Cynnwys hyn mewn cynlluniau cydraddoldeb mewn carchardai yn Lloegr sy'n derbyn carcharorion o Gymru
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Byddai gwell systemau cynadledda fideo o gymorth i garcharorion Cymraeg eu hiaith mewn carchardai yn Lloegr. - Byddai'n ddymunol i gyfleusterau cynadledda fideo'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai fod yn gyfaddas – nid felly y mae ar hyn o bryd - Pe byddai poblogaeth fwy o garcharorion Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, byddai llai o ystyriaethau i reolwyr mewn carchardai yn Lloegr
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Hybu dwyieithrwydd (e.e. mae arwyddion dwyieithog yng ngharchar Altcourse) - Mwy o gyfleusterau cyfieithu. - Gwneir ymdrechion ym maes Iechyd a dylid eu hefelychu mewn meysydd eraill
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy ganfod anghenion iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf a recriwtio mwy o swyddogion prawf a swyddogion carchar Cymraeg eu hiaith. Dylai diffynyddion sydd wedi'u dedfrydu yng Nghymru gael eu cadw mewn sefydliadau carcharol yng Nghymru gyda swyddogion sy'n gallu sgwrsio â hwy drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydgysylltu yng Nghymru i Ostwng Aildroseddu

Cwestiwn 16: Sut y gall NOMS Cymru sicrhau bod camau i ostwng aildroseddu yn dod yn rhan o ddull cyfannol ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel yr awdurdodau lleol?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
3	Cymdeithas Tai Hafan	- Oherwydd gorlenwi carchardai a phrinder adnoddau, bydd troseddwyr weithiau'n torri gorchmynion heb gael ymateb neu neges glir wedyn i bwysleisio bod eu hymddygiad yn anghywir. Mae angen terfynau pendant a chyfarwyddyd cyson yn y maes hwn, a chanlyniadau clir.
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Sicrhau bod y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai wedi'u cynrychioli mewn fforymau. - Sicrhau bod staff sy'n mynd iddynt yn cael cylch gorchwyl sy'n diwallu'r angen. - Mwy o gomisiynu rhanbarthol.
5	Kaleidoscope	- Drwy fod yn agosach at y broses gomisiynu gyfan. Y broblem ar hyn o bryd yw bod ardaloedd BILlau ac Awdurdodau Lleol yn fach ac nad ydynt yn cydffinio â'r Ardaloedd Prawf. Mae angen un ai i Lywodraeth y Cynulliad gael ardaloedd mwy fel rhai'r Gwasanaeth Prawf neu gymryd trosolwg mwy strategol gan ystyried darparu triniaeth cyffuriau yng Nghymru ar sail 4 neu 5 o ardaloedd.

7	Ardal Brawf Gwent	- Gallai fod yn fuddiol inni ystyried y profiad a gafwyd yn Lloegr er mwyn cael enghreifftiau o arferion da. Nid yw'r trefniadau gwleidyddol 'darniog' yng Nghymru o ran atebolrwydd dros wahanol feysydd gwaith yn fanteisiol. Gallent beri dryswch a rhwystrau wrth ddylunio fframwaith cyfannol.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Mae Gostwng Aildroseddu yn fater i'r holl bartneriaethau yn y gymuned leol ond bydd angen ei ffurfioli gyda byrddau gwasanaethau lleol.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Mae perygl o roi gormod o sylw i ddiffinio modelau ar gyfer darparu rhaglenni i droseddwyr, a cholli golwg ar y dylanwadau mwy cyffredinol ar eu bywydau. Rhaid inni addasu ein gwasanaethau yn ôl anghenion / dymuniadau'r troseddwr, yn hytrach na disgwyl iddo gydweddu â'n syniad ni o'i anghenion. Rhaid inni fabwysiadu dull mwy cyfannol a chydlynol wrth lunio polisi yn unigol ac ar lefel awdurdodau lleol ledled Cymru.
11	Canolfan Byd Gwaith	- Mae'r rhan fwyaf o gyrff yn cyfrannu eisoes at yr agenda ar ostwng aildroseddu. - Mae angen gwneud mwy ar lefel y gymuned i hybu a hyrwyddo'r rhaglen i gyn-droseddwyr ac i ddatblygu cysylltiadau ag awdurdodau lleol a fydd yn eu helpu i ddeall yr effaith a geir ar gymdeithas o ostwng aildroseddu.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Cymru Gyfan: Dylid adolygu'r Strategaeth Gostwng Aildroseddu bresennol i ganfod pa effaith a gafodd o ran hybu dulliau cydgysylltiedig o ostwng aildroseddu. - Bu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol yn fodd effeithiol i ddatrys problemau lleol er mwyn gostwng aildroseddu. Dylid cynnal adolygiad o fforwm Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Cymru gan gynnwys craffu ar yr effaith o ran gostwng aildroseddu. - Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn chwarae rhan allweddol wrth hybu camau i ostwng aildroseddu a dylid eu hannog i ddangos sut y maent yn cefnogi'r Strategaeth i Gymru.
14	Heddlu De Cymru	- Rhowch gyhoeddusrwydd i'r manteision, ac yn benodol yr arbedion ariannol i'r economi ac i gyrff o atal a gostwng aildroseddu. - Dylai Llywodraeth y Cynulliad fwrw golwg ar y modd y mae'n gweinyddu ei ffrydiau ariannu, a gosod amod wrth roi grant o gyllid i gyrff y dylent roi sylw i gamau i ostwng aildroseddu drwy eu gweithrediadau.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Drwy barhau i gymryd rhan mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae hyn yn fater i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac yn fater o integreiddio'r RRS ar lefel leol. - Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Cyfarwyddwr Gostwng Troseddu yng Nghymru i wella'r cysylltiadau hyn. - Mae angen inni roi'r gorau i'r arfer o gynnal cyfarfodydd yn ddiddiwedd a dechrau rhoi mwy o sylw i'r gwaith ymarferol o gyflenwi gwasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar droseddu, ofn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
18	Bwrdd Prawf De	- Defnyddio Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel grwpiau cyfeirio drwy gyfrwng y Gwasanaeth Prawf, e.e.

	Cymru	drwy'r broses troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Mae gan Heddlu De Cymru darged ar gyfer gostwng aildroseddu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gyfleu fel targed ar lefel is ar gyfer awdurdodau lleol. Heb gael targedau lleol o'r fath, byddai'n anodd canolbwyntio adnoddau'n effeithiol. - Dylid darparu data o ansawdd gwell i bartneriaethau diogelwch cymunedol i'w hysbysu am lefel y troseddu yn eu hardal, y mathau o droseddu a'r achosion
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy ymgysylltu â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Cwestiwn 17: Sut y gallwn greu cysylltiad effeithiol â chynlluniau comisiynu partneriaid eraill i gael y gorau o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

	Corff	**Crynodeb o'r Ymatebion**
4	Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau De Cymru	- Cyflogi staff sy'n deall comisiynu. - Sicrhau dilyniant - Sicrhau bod hynny'n waith llawn amser i'r bobl hyn, nid rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu at rôl arall - Sicrhau bod y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai wedi'u cynrychioli mewn fforymau.
7	Ardal Brawf Gwent	- Gallai fod yn fuddiol inni ystyried y profiad a gafwyd yn Lloegr er mwyn cael enghreifftiau o arferion da. Nid yw'r trefniadau gwleidyddol 'darniog' yng Nghymru o ran atebolrwydd dros wahanol feysydd gwaith yn fanteisiol. Gallent beri dryswch a rhwystrau wrth ddylunio fframwaith cyfannol.
8	Y Gwasanaeth Carchardai	- Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r strwythur presennol h.y. Bwrdd Strategaeth Gostwng Aildroseddu, Grwpiau Llwybrau, asiantaethau Cyfiawnder Troseddol lleol, etc.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	- Cyfathrebu, Ymgynghori, Darparu Adnoddau, Dyrannu Cyfrifoldeb, Cydraddoldeb
11	Canolfan Byd Gwaith	- Drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff perthnasol a chydnabod eu nodau / amcanion busnes mewn cysylltiad â'r agenda hon ac unrhyw agenda fwy cyffredinol. - Lle bynnag y bo modd, cymryd camau i hyrwyddo'r nodau hyn drwy helpu ein gilydd i sicrhau canlyniadau busnes perthnasol.
12	Uned	- Cyfeiriad at ddiwallu anghenion cyfannol y rhai sydd â phroblem cyffuriau. Un rôl bwysig i waith comisiynu ar y

	Partneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	cyd yw sicrhau bod dulliau o ddylanwadu a chymell ar waith i ddarparu lefel briodol o wasanaethau cyfannol i droseddwyr sydd wedi'u rhyddfarnu/rhyddhau i'r gymuned ac sy'n derbyn triniaeth.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	- Asesu'r effaith a gafwyd ar ddatblygu dulliau comisiynu cydgysylltiedig ar lefel genedlaethol a lleol ac a yw'r pwyslais ar 'gynlluniau gweithredu' wedi tynnu sylw at neu oddi wrth y gwaith o gyd-ddatblygu gwasanaethau a chomisiynu.
14	Heddlu De Cymru	- Cynnwys y gofyniad hwn am gyfathrebu yn strategaeth NOMS. Bydd hyn yn cynnwys pwyntiau cyswllt penodol a'u lefel, a'r hyn a ddisgwylir gan bob defnyddiwr yn y cynllun.
15	Gwasanaeth Erlyn y Goron, Grwp Rhanbarth Cymru	- Drwy Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.
16	Llywodraeth Cynulliad Cymru	- Mae'r ddarpariaeth o gymorth sy'n gysylltiedig â llety a thai yn cael effaith lesol ar aildroseddu. Mae cyfle i ystyried cael grantiau llety prawf wrth gefn fel y gellir cael gwell cydgysylltu â chyrff comisiynu drwy raglen grantiau digartrefedd y Cynulliad. - Mae angen inni sicrhau bod y Gwasanaeth Prawf, wrth gomisiynu, yn mynnu y ceir cydweithio â mecanweithiau cynllunio lleol ar gyfer tai gan wasanaethau prawf.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Pan fyddwn yn gwybod hyn, bydd yn fater o fynd i'r arfer o gyd-greu a chydgomisiynu a/neu gael mynediad at gyllid sy'n dod â chyrff at ei gilydd sy'n gallu rheoli'r ymyriadau'n gorfforaethol
18	Bwrdd Prawf De Cymru	- Comisiynu ar y cyd gan y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. A allwn ganfod yr effaith a gafwyd yn hyn o beth drwy grwpiau llwybrau'r Cynllun Gweithredu ar Ostwng Aildroseddu (RRAP)? Dylent gynnig mwy o gyfle i wneud hyn
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	- Dylid cael mwy o ymgysylltu gan y BILlau gyda'r Bwrdd Rheoli Strategol a chyda'r ymddiriedolaethau prawf. - Nid oes fframwaith strategol ar gyfer MAPPA i Gymru gyfan ar hyn o bryd. Gan fod yr arweiniad ar MAPPA yn genedlaethol, mae'n ymddangos yn briodol datblygu strwythur i Gymru gyfan. - Dylid datblygu fframwaith perfformiad i'r holl bartneriaid ar gyfer MAPPA ar lefel Cymru gyfan a gaiff ei gadarnhau drwy gytundeb ffurfiol gan yr holl bartïon.
20	Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru	- Gweithio effeithiol rhwng asiantaethau. - Cyfathrebu. - Rhannu gwybodaeth (er gwaethaf y Ddeddf Diogelu Data)
21	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Cymru	Drwy ganfod a diwallu anghenion dedfrydwyr drwy ymbresenoli yn y Fforymau Barnwrol Ardal a Grwpiau Dedfrydwyr y Gwasanaeth Prawf.

Unrhyw Sylwadau Eraill:

	Corff	Crynodeb o'r Ymatebion
2	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Diogelu'r Cyhoedd	Dylai'r strategaeth gyfeirio at drefniadau MAPPA a sicrhau bod NOMS yn chwarae ei ran yn llawn yn y trefniadau hyn fel awdurdod cyfrifol ac fel aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol. Hoffwn weld rhywbeth hefyd i gadarnhau mai dim ond rhaglenni sydd wedi'u hachredu'n genedlaethol ar gyfer troseddwyr rhyw, troseddwyr treisgar a throseddwyr trais yn y cartref a gaiff eu comisiynu ac y defnyddir offer asesu risg a gytunwyd yn genedlaethol. Roeddwn yn hoffi'r oslef wirioneddol ymgynghorol sydd yn y ddogfen a'i chynllun clir. Roedd hefyd yn gryno a heb jargon. Roedd yn cyfleu ymagwedd onest – cyfaddef na allwch fforddio gwneud pob dim, derbyn nad yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid a chadarnhau'r angen am flaenoriaethau. Roeddwn yn hoffi'r rhagymadrodd a oedd yn y person cyntaf ac yn pwysleisio'r angen i'r cynllun comisiynu hwn fod â chysylltiad â'r comisiynu y tu mewn a'r tu allan i'r system cyfiawnder troseddol. Rwyf yn cytuno y dylech ddargyfeirio troseddwyr risg isel oddi wrth wasanaethau sydd wedi'u comisiynu ond dylech eu cyfeirio i sylw asiantaethau cymunedol sy'n gallu rhoi sylw i'w hanghenion.
9	Cymdeithas Fawcett	Carem groesawu'ch cydnabyddiaeth i anghenion penodol menywod sy'n droseddwyr, a'r ymrwymiadau a wnaed i gomisiynu gwasanaethau a fydd yn diwallu'r anghenion hyn.
10	Prosiect Caplaniaeth Gymunedol Abertawe	Mae'n bwysig i NOMS (Cymru) gydnabod y 'Trydydd Sector' fel y 'Sector Crefyddol a Gwirfoddol Gymunedol' Nid oes unrhyw sôn yn y dogfennau ar yr ymgynghoriad hwn am Grefydd er bod cyfeiriadau lu at yr elfen hanfodol hon yn y rheolaeth ar droseddwyr yn hanesyddol, yn gyfredol ac ar gyfer y dyfodol. Mae angen i NOMS (Cymru) ddeall ei sail resymegol ar gyfer cynnwys grwpiau crefyddol, mewn cwestiynau fel: • Pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen? • Ym mha ffordd y mae eu rôl yn wahanol i rôl cyrff cymunedol eraill? Mae grwpiau crefyddol yn amlygu o leiaf dair nodwedd sy'n arbennig o bwysig. • Maent amlygu ymrwymiad cyfannol i gymunedau, yn hytrach nag ymddiddori mewn mater penodol neu ran benodol o'r boblogaeth. Mae hyn yn deillio o bwysigrwydd eu cenadwri grefyddol yn y gymuned, drwy wasanaethu pobl leol a diwallu anghenion drwy wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol. • Mae grwpiau crefyddol yn mynegi hunaniaethau sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau, ac

		maent yn cael eu cysylltu ag ymrwymiad, ymagwedd a phresenoldeb lleol tymor hir. Gallent hwyluso perchnogaeth gymunedol ar raglenni adnewyddu dinesig, ac ategu, os nad herio, cynlluniau tymor byrrach. • Ac maent yn amlygiad o amrywiaeth, yn cynrychioli hunaniaethau neilltuol a chanddynt y gallu i helpu i ddilysu – a hyd yn oed ddathlu – natur amrywiol cymunedau. Dylai NOMS (Cymru) ddefnyddio galluoedd grwpiau crefyddol a welir yn sgiliau eu haelodau, eu gallu i drefnu gwirfoddolwyr a darparu staff a mannau cyfarfod, yn ogystal â'u rôl o ran cyrraedd grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Gellir mynegi hyn fel a ganlyn: • 'cyfalaf dynol' (staff, gwirfoddolwyr, ac aelodau), • 'cyfalaf cymdeithasol' (rhwydweithiau ymddiriedaeth a chilyddiaeth) • 'cyfalaf ffisegol' (adeiladau a chanolfannau cymunedol). • 'cyfalaf ysbrydol' (yr egni sy'n ysgogi'r grwp). Mae grwpiau crefyddol yn arbennig o berthnasol i'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau difreintiedig sydd wedi arfer bod yn 'anodd eu cyrraedd'. Mae angen i NOMS (Cymru) ystyried hefyd y graddau y mae grwpiau crefyddol yn gallu cael mynediad at adnoddau NOMS (Cymru). Mae llawer o grwpiau crefyddol yn teimlo bod gwahaniaethu yn eu herbyn pan fyddant yn ymgeisio am adnoddau NOMS (Cymru) a hynny, o bosibl, am eu bod yn rhan o'r Trydydd Sector yn hytrach na'r un statudol. Mae angen mapio'r llif adnoddau er mwyn darganfod beth y mae grwpiau crefyddol yn ei gyfrannu eisoes a pha adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i gynnal, ehangu neu ailgyfeirio eu gwaith drwy ymgynghori â NOMS (Cymru). Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth gyfun o'r *cymhelliad* i gymryd rhan; *gallu* grwpiau i ymgysylltu; a chyfraniad proffesiynol at sicrhau *canlyniadau* sy'n ofynnol. Yr hyn sy'n hanfodol yw awydd y Gymuned Grefyddol i wasanaethu – ni all wneud hynny'n effeithiol heb adnoddau. Dyma'r her o hyd!
12	Uned Partneriaethau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	- Beth am y rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar heb ddedfryd neu â dedfryd o lai na 12 mis? Rhaid i NOMS ganolbwyntio ar y grwp hwn, ac yn enwedig ar y rhai sydd â phroblem ddifrifol o ran cyffuriau, os yw i ostwng nifer yr achosion o aildroseddu mynych. - Dylai'r cynllun comisiynu a busnes ganolbwyntio ar reolaeth achosion ar gyfer y grwp hwn a gweithio gyda'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a chynlluniau tebyg. - Dylid cael is-benawdau ar wahân dan 'amrywiaeth':

		• Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig • Anabledd/ anawsterau dysgu • Lesbiaid/Hoywon etc - Un elfen allweddol sydd wedi'i gadael allan o'r ymgynghoriad yw materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol i'r rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar.
13	Ardal Brawf Gogledd Cymru	Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r gwahoddiad i gyfrannu i'r ymgynghoriad hwn ond nid yw'n credu bod y papur ymgynghori'n cydymffurfio â maen prawf 2 yn y meini prawf ar gyfer Ymgynghori:- "Byddwch yn glir ynghylch beth yw'ch cynigion…" Oherwydd hynny, mae'r Bwrdd yn ceisio sicrwydd y bydd ymgynghori pellach ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau/comisiynu yn y dyfodol ar ôl eu pennu a'u diffinio.
16	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rydym yn ymwybodol y bydd statws gwarchodedig gan Fyrddau Prawf am dair blynedd ar ôl ymgymryd â statws Ymddiriedolaeth, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal yn bryderus ynghylch effaith bosibl yr elfen o gystadleuaeth yn y dyfodol. Rydym yn dal yn bryderus ynghylch y capasiti annigonol yn yr ystad carchardai i ddynion yng Nghymru, a'r diffyg capasiti ar gyfer carcharorion benywaidd yng Nghymru ar hyn o bryd.
17	Ardal Brawf Dyfed-Powys	- Mae angen tystiolaeth yn y ddogfen hon bod NOMS Cymru yn darparu gwerth ychwanegol; beth yw'r gwerth ychwanegol, a wnaed dadansoddiad cost a budd ac a oes unrhyw gyfle i droi adnoddau oddi wrth NOMS Cymru at ddarparu gwasanaethau? - Bydd Ardal Brawf Dyfed-Powys yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu Rheolaeth Troseddwyr ac Ymyriadau a bydd yn parhau i gymhwyso egwyddorion Gwerth Gorau at ein hasesiadau o bwy sydd yn y lle gorau i gyflawni'r gwaith. Mae'r dull gweithredu hwn yn sail i'n Cynllun Gwasanaethau a'r gwaith o weithredu'r Model Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol a'i gyfluniad o Reolwyr Troseddwyr, Goruchwylwyr Troseddwyr, Gweithwyr Allweddol a Gweinyddwyr Achosion. - Derbynnir bod hanes o lwyddiant gan Ardaloedd Prawf ledled Cymru, fel cyrff darparu arweiniol ac fel cyrff comisiynu lleol, sy'n gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a phreifat i ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Efallai fod lle i gomisiynu gwasanaethau ar lefel Cymru gyfan i ategu gwasanaethau lleol, ond nid i gymryd eu lle. Y gamp fydd sicrhau arbedion maint heb leihau effeithlonrwydd ac effeithioldeb y gwaith o ddarparu gwasanaethau i droseddwyr a dioddefwyr yn ein hardaloedd anghysbell, ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd. - Mae setliad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer 2008/11 yn ymddangos yn un ymestynnol iawn. Rhaid cynnal gwasanaethau craidd a bydd hynny'n anodd ynddo'i hun o ran sicrhau ansawdd a nifer y gwasanaethau a ddarperir. Dylid hybu ymdrechion ar y cyd i ganfod ymhle ac ym mha fodd y gallwn ddadfuddsoddi i ailfuddsoddi neu ddod o hyd i arbedion drwy effeithlonrwydd. Bydd croeso mawr i unrhyw

		gyfleoedd i NOMS Cymru sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer mwy o wariant cyfalaf neu wariant ar weithrediadau i hybu cynlluniau newydd. - Mae'r dilyniant o ran blaenoriaethau i'w groesawu hefyd o ystyried y canlynol: o prinder adnoddau sy'n cyfyngu gwasanaethau o cyflymder y newid trefniadol, y mae'n rhaid ei reoli'n effeithiol ac felly darparu adnoddau ar ei gyfer o fframweithiau cyfarwyddol o ran arferion gwaith, modelau trefniadol, arferion cyflogaeth a threfniadau llywodraethu. - Yr her yn hyn o beth yw cadw ein cryfderau ym maes Rheoli Troseddwyr ac Ymyriadau yng Nghymru gan roi digon o le i ni'n hunain i arloesi a bod yn greadigol. Mae'n sicr bod dulliau gwell a gwahanol o weithio ar y cyd (y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai, Timau Troseddau Ieuenctid, y sectorau Gwirfoddol, Cymunedol a Phreifat, y system cyfiawnder troseddol, y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, etc.). Er hynny, mae pris i'w dalu am weithio ar y cyd hefyd a dylid ystyried hynny yng nghyd-destun ein rhagdybiaethau wrth gynllunio. Efallai y bydd angen newid sylfaenol yn nhrefn y strwythurau, y systemau a'r prosesau i sicrhau ffyniant mentrau ar y cyd.
18	Bwrdd Prawf De Cymru	Croestynnu rhwng cyllid ar gyfer gweithgareddau statudol craidd a hwnnw ar gyfer datblygu ffrydiau newydd. Mae angen inni egluro'r cyntaf cyn y gallwn ddatblygu'r olaf. Byddai o gymorth, ar ôl datblygu cynigion penodol yng ngoleuni'r adborth i'r broses hon, os gellid cael cyfle i ymgynghori er mwyn datblygu strategaethau ar gyfer darparu gwasanaethau ar lefel leol, yn enwedig yng ngolwg y pwyslais ar bartneriaeth a chyfrifoldeb Byrddau/Ymddiriedolaethau Ardal i fod yn gyrff comisiynu lleol.
19	Heddlu De Cymru, Adran Diogelu'r Cyhoedd	Nid oes targedau perfformiad penodol mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd ac felly mae'n ymddangos nad oes cyllid i gynnal y maes gweithgarwch hwn.